Ministry of Justice

# Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 20 Rhagfyr 2021

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 24 Ionawr 2022

# Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored

**Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at berchnogion, ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr eraill safleoedd cymeradwy neu ddarpar safleoedd cymeradwy; cynrychiolwyr awdurdodau sy'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd ac am gydymffurfio ag amodau sy'n berthnasol i gymeradwyo; cynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru priodasau a phartneriaethau sifil o fewn awdurdodau lleol; grwpiau crefyddol neu gyrff cymeradwy; perchnogion neu ymddiriedolwyr addoldai sydd wedi eu cofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau; unigolion sydd wedi eu hawdurdodi dan Ddeddf Priodasau 1949; gweinyddion; unigolion, cwmnïau neu gyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r sector priodasau a phartneriaethau sifil; cyplau sydd wedi cynnal, neu'n bwriadu cynnal, priodasau/partneriaethau sifil yn yr awyr agored yng Nghymru a Lloegr, ac unrhyw berson arall y mae'r cynnig i ganiatáu priodasau sifil a chrefyddol, yn ogystal â phartneriaethau sifil, yn yr awyr agored yn effeithio arno neu y gallai effeithio arno. |
| **Hyd:** | O 20/12/21-24/01/22 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Natasha Colvine<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: outdoorweddings@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 24 Ionawr 2022 at:<br><br>Natasha Colvine<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: outdoorweddings@justice.gov.uk |

| | |
|---|---|
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn dydd Gwener 24/04/22 yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys


**Executive summary** **1**

Glossary 4

**Introduction** **6**

**The proposals: (1) Outdoor Civil Marriages and Civil Partnerships on Approved Premises** **7**

Background 7

Scope of the proposal 8

Detail of the proposal 9

**The Proposals: (2) Outdoor Religious Marriages at places of worship** **15**

Background 15

Scope of the proposal 16

**Questionnaire** **21**

**About you** **27**

**Contact details/How to respond** **28**

Complaints or comments 28

Extra copies 28

Publication of response 28

Representative groups 28

Confidentiality 29

**Impact Assessment, Equalities and Welsh Language** **30**

Impact assessment 30

Equalities 46

Welsh Language Impact Test 51

**Consultation principles** **52**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu cynigion y Llywodraeth i barhau i ganiatáu priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy, ac i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli, ac yn gofyn am farn pobl ar hynny.

Ers 1 Gorffennaf 2021, mae cyplau wedi gallu cynnal eu priodasau sifil a'u partneriaethau sifil yn yr awyr agored, ar dir adeiladau fel plastai a gwestai sydd wedi'u cymeradwyo neu'n cael eu cymeradwyo ar gyfer y seremonïau sifil hyn. Yn flaenorol, dim ond dan do neu mewn strwythurau parhaol ansymudol y gellid cynnal y seremonïau hyn. Roedd y seremonïau awyr agored hyn yn bosibl oherwydd bod y Llywodraeth wedi gosod Offeryn Statudol ('OS') yng nghanol pandemig Covid-19 er mwyn rhoi mwy o ddewis i gyplau o ran lleoliadau a chefnogi'r sector priodasau a phartneriaethau sifil. Fodd bynnag, dim ond tan 5 Ebrill 2022 y mae'r OS mewn grym.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig gosod OS pellach er mwyn i'r priodasau sifil a phartneriaethau sifil awyr agored hyn allu parhau ar ôl 5 Ebrill 2022 am gyfnod amhenodol. Mae'r Llywodraeth yn cynnig gwneud hynny drwy ddwyn yr OS pellach hwn i rym yn syth ar ôl i'r OS presennol ddod i ben. Gan fod y cynnig hwn yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn ac ar weithdrefnau OS cyffredin, ni all y Llywodraeth warantu y byddai'r OS pellach mewn grym erbyn 6 Ebrill 2022. Fodd bynnag, dyma gynnig a bwriad y Llywodraeth, a bydd y Llywodraeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau trosglwyddiad di-dor o'r rheolau presennol i'r rheolau newydd. Yn benodol, mewn perthynas â seremonïau sifil ar safleoedd cymeradwy, mae'r Llywodraeth yn cynnig parhau i wneud y canlynol:

- lleihau beichiau gweinyddol drwy dybio bod adeiladau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer seremonïau sifil yn cynnwys eu "hardaloedd awyr agored cysylltiedig" yn awtomatig (gweler yr Eirfa);

- sicrhau y bydd ceisiadau newydd (ar gyfer eu cymeradwyo neu eu hadnewyddu), ac unrhyw benderfyniadau ynghylch y rhain, yn cael eu hymestyn yn awtomatig i gynnwys mannau awyr agored cysylltiedig. Byddai angen i berchnogion neu ymddiriedolwyr ceisiadau gyflwyno cynlluniau o'r ardaloedd awyr agored yn ogystal â'r "adeilad adeiledig";

- mynnu y bydd angen i leoliadau awyr agored ar gyfer y seremoni fodloni amodau penodol, gan gynnwys bod yn weddus ac urddasol, a bod modd eu hadnabod yn ôl disgrifiad er mwyn gallu eu lleoli.

Ni fyddai'r OS y cyfeirir ato uchod yn newid y gyfraith mewn perthynas â phriodas grefyddol oherwydd dim ond ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau sifil, yn hytrach na phriodasau crefyddol, y mae'r Deddfau Seneddol y caiff yr OS ei wneud oddi tanynt yn creu'r hyblygrwydd hwn o ran safleoedd (mae'n rhaid i briodasau crefyddol yn gyffredinol ddigwydd ym mannau addoli'r crefyddau perthnasol, fel y darperir gan statud).

Yn hytrach, mae'r Llywodraeth yn cynnig ymestyn y polisi o ganiatáu seremonïau yn yr awyr agored i briodasau crefyddol gan ddefnyddio gorchymyn diwygio deddfwriaethol ar wahân, a fyddai'n rhoi dewis a hyblygrwydd tebyg i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol ac i'r cyrff crefyddol sy'n gweinyddu'r priodasau. Oherwydd yr amserlenni hirach sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn (mae angen newid deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â lle mae'n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ac mae gorchmynion diwygio deddfwriaethol yn cynnwys nifer o ofynion gweithdrefnol ychwanegol), ni fyddai'r ddarpariaeth ar gyfer priodasau crefyddol yn yr awyr agored yn gallu dod i rym ym mis Ebrill 2022, fel y bwriedir ar gyfer yr OS i seremonïau sifil.

Byddai'r newidiadau hyn yn rhai caniataol, sy'n golygu na fyddai'n rhaid i unrhyw grŵp crefyddol, neu berchennog neu ymddiriedolwr man addoli sydd wedi'i gofrestru ar gyfer priodasau, ddarparu seremonïau yn yr awyr agored. Byddai mesurau diogelu presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol yn aros yn eu lle, a mater i gyrff crefyddol fyddai nodi a fyddai angen diwygio eu cyfreithiau neu eu defnydd ac, os felly, beth fyddai eu heffaith ac o fewn pa amserlen.

At ei gilydd, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer priodasau a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy yn parhau am gyfnod amhenodol ac yn ymestyn i briodasau crefyddol ar dir mannau addoli. Byddai'r cynigion yn galluogi cyplau i gael mwy o ddewis o ran lleoliad eu seremonïau, ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i safleoedd cymeradwy a chyrff crefyddol o ran y lleoliadau ar gyfer seremonïau os ydynt yn dewis cynnig hynny. Byddai'r polisi'n dileu'r cyfyngiadau deddfwriaethol sy'n mynnu bod y rhan fwyaf o seremonïau priodas a phartneriaeth sifil yn cael eu cynnal dan do ac felly'n hyrwyddo effeithlonrwydd yn y sector. Er mwyn osgoi gweithdrefnau rheoleiddio ychwanegol ar y cam hwn, byddai'r polisi'n dod i rym drwy bennu'n awtomatig bod lleoliadau dan do a ganiateir ar hyn o bryd yn cynnwys lleoliadau awyr agored o fewn terfynau'r eiddo.

Mae'r Llywodraeth eisiau annog y sefydlogrwydd a'r ymrwymiad mae priodasau a phartneriaethau sifil yn ei gynnig mewn bywyd teuluol. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried yr achos dros ddiwygio mwy cynhwysfawr a pharhaus unwaith y bydd Comisiwn y Gyfraith wedi cwblhau ei adolygiad o gyfraith priodas. Bydd Comisiwn y Gyfraith yn cyflwyno opsiynau ar wahân ar gyfer diwygiadau i foderneiddio cyfraith priodas, gan gynnwys sut y gellid cynnal seremonïau mewn ystod ehangach o leoliadau a all weinyddu priodas, sut y gellid ymgorffori priodasau gan ddyneiddwyr a sefydliadau eraill â chred anghrefyddol, a sut y gellid gwneud darpariaeth ar gyfer defnyddio gweinyddion annibynnol. <u>Sylwch nad yw'r materion sy'n cael sylw yn adolygiad Comisiwn y Gyfraith o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i geisio mewnbwn ar bolisi arfaethedig y Llywodraeth fel y nodir yn y papur hwn, gan gynnwys unrhyw effeithiau sydd eisoes wedi'u profi neu wedi'u gweld ers 1 Gorffennaf 2021 o ran seremonïau ar safleoedd cymeradwy ac unrhyw effeithiau disgwyliedig yn sgil y newidiadau hynny neu'r cynigion i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli.</u> Dim ond yr ymatebion hynny sy'n ymwneud â'r cynigion a nodir yn y papur hwn a fydd yn cael eu hystyried.

Mae'r Llywodraeth yn croesawu safbwyntiau neu brofiadau ynghylch sut mae'r newidiadau i'r seremoni sifil a wnaed ym mis Gorffennaf 2021 wedi bod yn gweithio, yn ogystal ag unrhyw safbwyntiau eraill ynghylch sut byddai'r cynnig i barhau â'r ddarpariaeth ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy, ac, ar wahân i hynny, i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli, yn gweithio neu pa effeithiau y gallai eu cael. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at unrhyw un y mae'r cynnig hwn yn effeithio arno, gan gynnwys perchnogion, ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr eraill safleoedd cymeradwy neu ddarpar safleoedd cymeradwy; cynrychiolwyr awdurdodau sy'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd ac am gydymffurfio ag amodau sy'n berthnasol i gymeradwyo; cynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru priodasau a phartneriaethau sifil sy'n eistedd mewn awdurdodau lleol; grwpiau crefyddol neu gyrff cymeradwy; perchnogion neu ymddiriedolwyr mannau addoli a gofrestrwyd ar gyfer gweinyddu priodasau; unigolion awdurdodedig wedi eu penodi dan Ddeddf Priodasau 1949; gweinyddion; unigolion, cwmnïau neu gyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r sector priodasau a phartneriaethau sifil; cyplau sydd wedi cynnal, neu'n bwriadu cynnal, priodasau/partneriaethau sifil yn yr awyr agored yng Nghymru a Lloegr; ac unrhyw berson arall y mae hyn yn effeithio arno neu y gallai effeithio arno.

## Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Rheoliadau 2005** | Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 (O.S. 2005/3168). |
| **safleoedd cymeradwy** | Safleoedd a gymeradwywyd yn unol â Rheoliadau 2005. Gweler hefyd y diffiniad o "safle" isod. |
| **safle adeiledig** | Strwythur parhaol ansymudol sy'n cynnwys o leiaf un ystafell, neu unrhyw gwch neu long sydd wedi'i angori'n barhaol. |
| **OS seremoni sifil** | OS a fyddai'n darparu ar gyfer seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar sail safleoedd cymeradwy fel y cynigir yn yr ymgynghoriad hwn |
| **OS cyntaf/OS cychwynnol** | Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) (Diwygiad) 2021 (O.S. 2021/775), a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021. |
| **dan do** | Mae ardal yn cael ei hystyried "dan do" os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.<br><br>Mae gofod yn cael ei ystyried yn gaeedig, ac felly "dan do", os oes ganddo nenfwd neu do a'i fod wedi'i amgáu'n gyfan gwbl naill ai'n barhaol neu dros dro, ac eithrio drysau, ffenestri a thramwyfeydd.<br><br>Mae gofod yn cael ei ystyried yn sylweddol gaeedig os oes ganddo nenfwd neu do ond bod agoriad yn y waliau, neu ardal gyfanredol o agoriadau yn y waliau, sy'n llai na hanner arwynebedd y waliau, gan gynnwys strwythurau eraill sy'n gweithredu at ddibenion waliau ac yn ffurfio perimedr y safle. (Nid yw drysau, ffenestri na ffitiadau eraill y gellir eu hagor neu eu cau yn cael eu hystyried wrth bennu arwynebedd yr agoriadau).<br><br>Mae to yn cynnwys unrhyw strwythur sefydlog neu symudol neu ddyfais sy'n gallu gorchuddio'r gofod cyfan neu ran ohono fel to, gan gynnwys, er enghraifft, gorchudd cynfas. |
| **ardal awyr agored gysylltiedig** | Unrhyw ardaloedd o fewn ffin tir y "safle adeiledig", nad ydynt dan do ac y gellid eu defnyddio ar y cyd â'r safle adeiledig. |
| **GDD** | Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (GDD) sy'n fath penodol o ddeddfwriaeth ddirprwyedig a wnaed o dan adran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. |
| **safle** | Safleoedd adeiledig ynghyd â mannau awyr agored cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| **awdurdod cofrestru** | Yr awdurdod lleol neu'r awdurdod cofrestru ar gyfer yr ardal y mae safle wedi'i leoli ynddi sy'n gyfrifol am ganiatáu neu wrthod ceisiadau am gymeradwyo safle a swyddogaethau cysylltiedig eraill o dan Reoliadau 2005. |
| **safle crefyddol** | Safle lle mae'r eiddo adeiledig yn cael ei ddefnyddio at ddibenion crefyddol yn unig neu'n bennaf. |
| **OS** | Offeryn statudol a wneir gan Weinidog ac a osodir gerbron y Senedd cyn dod i rym. Mae'r pŵer i wneud offeryn statudol wedi'i nodi mewn Deddf Seneddol, yn ogystal â'r weithdrefn seneddol sy'n berthnasol. |

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn nodi cynnig y Llywodraeth i barhau i ganiatáu seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy. Mae'r polisi hwn eisoes wedi bod mewn grym ers 1 Gorffennaf 2021, pan gyflwynodd y Llywodraeth OS yng nghanol pandemig Covid-19 er mwyn rhoi mwy o ddewis i gyplau o ran lleoliadau a chefnogi'r sector priodasau a phartneriaethau sifil. Fodd bynnag, dim ond tan 5 Ebrill 2022 y mae'r OS mewn grym. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig gosod OS pellach a fyddai'n dod i rym pan ddaw'r newidiadau hyn i ben ac a fyddai'n parhau i ganiatáu'r seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil hyn yn yr awyr agored, fel yr eglurir yn fanylach yn y papur hwn.

Mae'r papur hwn hefyd yn nodi cynnig y Llywodraeth i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli, drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol ar wahân. Byddai hyn yn caniatáu i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol mewn mannau addoli, yn ogystal â chyrff crefyddol, elwa o fwy o hyblygrwydd a dewis tebyg i'r rheini sy'n dymuno cael priodasau sifil a phartneriaethau sifil ar safleoedd cymeradwy, ac yn helpu i hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd yn y sector priodasau.

Fel rhan o'n proses casglu tystiolaeth, mae'r papur hwn yn gofyn am fewnbwn ar effeithiau disgwyliedig y cynigion hyn, yn ogystal â thystiolaeth o sut mae'r newidiadau ar gyfer seremonïau sifil ar safleoedd cymeradwy eisoes wedi bod yn gweithio'n ymarferol. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at unrhyw un y mae'r cynnig hwn yn effeithio arno, gan gynnwys perchnogion, ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr eraill safleoedd cymeradwy neu ddarpar safleoedd cymeradwy; cynrychiolwyr awdurdodau sy'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd ac am gydymffurfio ag amodau sy'n berthnasol i gymeradwyo; cynrychiolwyr gwasanaethau cofrestru priodasau a phartneriaethau sifil sy'n eistedd mewn awdurdodau lleol; grwpiau crefyddol neu gyrff cymeradwy; perchnogion neu ymddiriedolwyr mannau addoli a gofrestrwyd ar gyfer gweinyddu priodasau; unigolion awdurdodedig wedi eu penodi dan Ddeddf Priodasau 1949; gweinyddion; unigolion, cwmnïau neu gyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r sector priodasau a phartneriaethau sifil; cyplau sydd wedi cynnal, neu'n bwriadu cynnal, priodasau/partneriaethau sifil yn yr awyr agored yng Nghymru a Lloegr; ac unrhyw berson arall y mae hyn yn effeithio arno neu y gallai effeithio arno.

Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/

Mae Asesiad Effaith yn nodi bod y mesurau a gynigir yn y papur hwn yn debygol o effeithio ar leoliadau priodasau a phartneriaethau sifil sydd â mannau addas yn yr awyr agored ar eu safle, cyrff crefyddol sy'n gweinyddu priodasau, a pherchnogion neu ymddiriedolwyr adeiladau a gofrestrwyd fel mannau addoli. Nid yw wedi bod yn bosibl mesur gwerth ariannol effeithiau'r cynigion a gyflwynwyd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'n gwaith casglu tystiolaeth er mwyn helpu i lenwi bylchau yn ein gwybodaeth. Mae Asesiad Effaith cychwynnol wedi'i gynnwys (tudalen 30) a byddem yn croesawu sylwadau arno.

# Y cynigion: (1) Priodasau Sifil a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored ar Safleoedd Cymeradwy

Mae'r Llywodraeth yn cynnig parhau i ganiatáu seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy. Mae'r polisi hwn eisoes wedi bod mewn grym ers 1 Gorffennaf 2021, pan gyflwynodd y Llywodraeth OS yng nghanol pandemig Covid-19 er mwyn rhoi mwy o ddewis i gyplau o ran lleoliadau a chefnogi'r sector priodasau a phartneriaethau sifil. Fodd bynnag, dim ond tan 5 Ebrill 2022 y mae'r OS mewn grym. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig gosod OS pellach a fyddai'n dod i rym pan ddaw'r newidiadau hyn i ben ac a fyddai'n parhau i ganiatáu'r seremonïau hyn yn yr awyr agored am gyfnod amhenodol, gan felly barhau i gynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd. Mae manylion y cynnig, sydd yn ei hanfod yr un fath â'r cynnig a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021, wedi'u nodi isod. Gan fod y cynnig hwn yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn ac ar weithdrefnau OS cyffredin, ni all y Llywodraeth warantu y byddai OS pellach mewn grym erbyn 6 Ebrill 2022. Fodd bynnag, dyma gynnig a bwriad y Llywodraeth, a bydd y Llywodraeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau trosglwyddiad di-dor o'r rheolau presennol i'r rheolau newydd.

## Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2019, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith ddarparu argymhellion ar gyfer cyfraith priodas ddiwygiedig a oedd yn caniatáu mwy o ddewis o fewn strwythur cyfreithiol syml, teg a chyson.  Ar ôl cyhoeddi'r adolygiad ym mis Mehefin 2019, dywedodd y Llywodraeth hefyd y byddai'n cyflymu'r gwaith o alluogi seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil i gael eu cynnal yn yr awyr agored.

Tra oedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo, daeth pandemig Covid-19. Mae ei effeithiau eang yn hysbys ac fe wnaethant gyflwyno heriau sylweddol. Roedd y rhain yn cynnwys effeithiau sylweddol ar y sector priodasau a phartneriaethau sifil ac ar filoedd o gyplau a wnaeth orfod gohirio neu ganslo eu seremonïau priodas a phartneriaeth sifil.

Er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a dewis i gyplau ac i berchnogion lleoliadau priodasau sifil a phartneriaethau sifil, neu ddarpar leoliadau, cyn gynted â phosibl ar gyfer tymor haf 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Mehefin 2021 y byddai'n caniatáu i seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil gael eu cynnal yn yr awyr agored ar dir safleoedd, fel gwestai neu blastai a oedd ag ystafelloedd neu strwythurau wedi'u cymeradwyo ar gyfer seremonïau sifil o'r fath. Byddai'r diwygiad hwn, er ei fod wedi'i gyfyngu i seremonïau sifil ar safleoedd cymeradwy, yn rhoi hyblygrwydd a dewis i sector lle mae bron i 75% o'r holl briodasau'n seremonïau sifil, a lle mae dros 85% o'r rhain yn cael eu cynnal ar safleoedd cymeradwy. Roedd y diwygio hwn wedi'i

gyfyngu i briodasau sifil oherwydd dim ond ar gyfer ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau sifil roedd y Deddfau Seneddol y cafodd yr OS ei wneud oddi tanynt ond yn creu'r hyblygrwydd hwn; mae'n rhaid i briodasau crefyddol yn gyffredinol ddigwydd mewn mannau addoli ar gyfer y crefyddau perthnasol, fel y darperir gan statud. Fodd bynnag, ymrwymodd y Llywodraeth i ddeddfu er mwyn galluogi seremonïau crefyddol i gael eu cynnal yn yr awyr agored ar safleoedd crefyddol pan oedd amser seneddol yn caniatáu.

Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2021 drwy offeryn statudol o'r enw Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) (Diwygiad) 2021 (O.S. 2021/775) (yr "OS cychwynnol"). Roedd y newidiadau a wnaed yn rhai am gyfnod penodol (dod i ben ar 5 Ebrill 2022) ac ymrwymodd y Llywodraeth i ymgynghoriad cyhoeddus a llunio asesiad effaith cyn cyflwyno offeryn arall yn ystod gwanwyn 2022. Mae'r ymgynghoriad hwn a'r Asesiad Effaith cysylltiedig bellach yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

## Cwmpas y cynigion

Mae'r Llywodraeth yn cynnig parhau â'i pholisi o ganiatáu i seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil ddigwydd mewn ardaloedd awyr agored sy'n gysylltiedig â safleoedd sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer seremonïau o'r fath neu sy'n cael eu cymeradwyo, fel y nodir yn yr OS a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021 (gweler 'Cefndir' uchod).

Mae'r Llywodraeth yn cynnig gwneud hynny drwy osod OS pellach a fyddai'n dod i rym ar 6 Ebrill 2022 ac a fyddai'n parhau i ganiatáu seremonïau awyr agored o'r fath am gyfnod amhenodol. Mae manylion y cynnig, sydd yn ei hanfod yr un fath â'r cynnig a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021, wedi'u nodi yn yr adran hon. Gan fod y cynnig hwn yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn ac ar weithdrefnau OS cyffredin, ni all y Llywodraeth warantu y byddai OS pellach mewn grym erbyn 6 Ebrill 2022. Fodd bynnag, dyma gynnig a bwriad y Llywodraeth, a bydd y Llywodraeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau trosglwyddiad di-dor o'r rheolau presennol i'r rheolau newydd.

Byddai'r OS arfaethedig yn berthnasol i seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil sy'n cael eu cynnal mewn safleoedd cymeradwy yn unol ag adran 26(1)(bb) Deddf Priodas 1949 ac adran 6(3A)(a) Deddf Partneriaeth Sifil 2004 yn y drefn honno. Byddai'n diwygio Rheoliadau 2005 yn union fel y gwnaeth yr OS cychwynnol (gweler 'Cefndir' uchod).

Yn yr un modd â'r achos dros yr OS hwnnw (gweler 'Cefndir' uchod), byddai'r rhan hon o'r diwygiad arfaethedig yn ymestyn i seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil a gynhelir ar safleoedd cymeradwy. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymgynghori yn y papur hwn ar ei chynnig i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol (gweler tudalen 15). Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried yr achos dros ddiwygio mwy cynhwysfawr a pharhaus unwaith y bydd Comisiwn y Gyfraith wedi cwblhau ei adolygiad o gyfraith priodas.

Yn yr un modd â newidiadau mis Gorffennaf 2021, mae'r rhain yn newidiadau caniataol: nid oes yn rhaid i leoliadau gynnig seremonïau yn yr awyr agored os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran nesaf.

Yn yr un modd, byddai'r OS arfaethedig yn ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig. Mae cyfraith priodasau a phartneriaethau sifil yn faterion a gedwir yn ôl yng nghyswllt Cymru. Mae cyfraith priodasau a phartneriaethau sifil wedi'i datganoli i Ogledd Iwerddon a'r Alban.

Yn olaf, ni fyddai'r OS arfaethedig, fel newidiadau mis Gorffennaf 2021, yn ymdrin ag unrhyw faterion diwygio eraill, yn enwedig materion eraill sydd i'w cynnwys yn argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio'r gyfraith priodasau sylfaenol, sydd ar y gweill. Am y rheswm hwn, dim ond ymatebion sy'n ymwneud â'r cynigion a nodir yn y papur hwn a fydd yn cael eu hystyried.

## Manylion y cynnig

**Pennu'n awtomatig bod safleoedd sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd yn cynnwys "ardaloedd awyr agored cysylltiedig"**

Fel yn y newidiadau ar 1 Gorffennaf 2021, ystyrir bod pob safle sydd eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil o dan delerau Rheoliadau 2005 yn cynnwys eu "hardaloedd awyr agored cysylltiedig". Byddai hyn yn lleihau'r beichiau gweinyddol ar berchnogion ac ymddiriedolwyr safleoedd cymeradwy, yn ogystal ag ar gyfer awdurdodau cofrestru, oherwydd ni fyddai angen cyflwyno ceisiadau newydd er mwyn cynnal seremonïau yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig o fewn ffiniau'r eiddo. Byddai'n rhaid bodloni rhai amodau o hyd, fodd bynnag. Trafodir hyn dan 'Amodau' isod.

Byddai "ardaloedd awyr agored cysylltiedig" yn cynnwys unrhyw ardaloedd o fewn ffin tir y "safle adeiledig", nad ydynt dan do ac y gellir eu defnyddio ar y cyd â'r safle adeiledig.

Yn y bôn, y "safle adeiledig" fyddai'r safleoedd a oedd eisoes wedi'u cymeradwyo neu a allai fod wedi cael eu cymeradwyo o dan Reoliadau 2005 cyn iddynt gael eu diwygio ar 1 Gorffennaf 2021. Strwythurau parhaol ansymudol yw'r rhain sy'n cynnwys o leiaf un ystafell, neu unrhyw gwch neu long sydd wedi'i angori'n barhaol.

Mae "ardaloedd awyr agored cysylltiedig" hefyd yn ardaloedd nad ydynt yn "dan do". Er mwyn gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd "dan do" neu beidio, rydyn ni'n cynnig parhau â'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr OS cychwynnol a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021. Byddai ardaloedd yn cael eu hystyried yn rhai "dan do" os ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig. I gael rhagor o fanylion am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig, ac felly'r hyn sy'n cael ei ystyried dan do, edrychwch ar yr Eirfa ar dudalen 4.

Fel yn yr OS gwreiddiol, byddai'r tybio awtomatig yn gymwys i bob safle sydd wedi'i gymeradwyo, gan gynnwys safleoedd crefyddol y cafwyd caniatâd ar eu cyfer gan y corff crefyddol perthnasol

o dan Reoliadau 2005 ar gyfer y cais am gymeradwyaeth[1]. Byddai'r cydsyniadau'n cael eu hystyried yn ychwanegol at y mannau awyr agored cysylltiedig, a fyddai bellach yn rhan o'r safle cymeradwy.

Fodd bynnag, fel y nodwyd o dan 'Cwmpas' uchod, newidiadau caniataol yn unig yw'r rhain. Ni fyddai'n ofynnol i berchenogion ac ymddiriedolwyr safleoedd crefyddol neu anghrefyddol gynnig seremonïau yn yr awyr agored os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mater i bob safle unigol yw penderfynu a ydynt yn am gynnal seremonïau yn yr awyr agored ac, os ydynt yn bwriadu gwneud hynny, bod yr amodau perthnasol yn cael eu bodloni (gweler 'Amodau' isod).

**Byddai safleoedd y mae eu cymeradwyaeth yn cael ei hadnewyddu neu ei dyfarnu o'r newydd yn cynnwys ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn awtomatig**

Fel yn yr OS cychwynnol, mae'r Llywodraeth yn cynnig y byddai unrhyw geisiadau newydd am gymeradwyaeth, neu geisiadau i adnewyddu cymeradwyaeth, yn ymestyn yn awtomatig nid yn unig i'r safle adeiledig a'i ardaloedd awyr agored cysylltiedig. Byddai caniatáu neu wrthod unrhyw gais am gymeradwyaeth neu adnewyddu cymeradwyaeth yn berthnasol i'r safle adeiledig a'r mannau awyr agored cysylltiedig yn awtomatig.

Byddai'n ofynnol i berchnogion neu ymddiriedolwyr gynnwys cynllun yn y cais sy'n dangos yr holl safle, gan gynnwys yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig â'u ffiniau. Ni fyddai angen dangos lleoliadau penodol yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig lle bwriedir cynnal seremonïau. Fodd bynnag, byddai'n dal yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos yr ystafell(oedd) dan do y maent yn gwneud cais am gymeradwyaeth ar eu cyfer.

Byddai'r polisi hwn yn berthnasol, fel yn yr OS gwreiddiol, p'un a oedd y cais am gymeradwyaeth neu adnewyddu cymeradwyaeth ar gyfer safleoedd crefyddol at ddiben cynnal seremonïau partneriaeth sifil, neu ar gyfer safleoedd anghrefyddol. Byddai unrhyw ofyniad o dan Reoliadau 2005 i sicrhau cydsyniad y corff crefyddol perthnasol ar gyfer cais am gymeradwyaeth nawr yn ymestyn i'r ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn ogystal â'r safle adeiledig.

Byddai'r OS arfaethedig hefyd yn sicrhau na fyddai angen ailgyflwyno unrhyw geisiadau am gymeradwyaeth neu adnewyddu cymeradwyaeth a oedd ar y gweill cyn i'r OS ddod i rym. Pan ddaeth yr OS cychwynnol i rym, roedd hyn yn golygu nad oedd angen ailgyflwyno ceisiadau a oedd yn aros gyda chynlluniau a oedd yn cynnwys ardaloedd awyr agored cysylltiedig. Fodd bynnag, ar yr adeg y byddai'r OS arfaethedig yn dod i rym, mae'n debyg y byddai unrhyw geisiadau newydd am gymeradwyaeth neu adnewyddu cymeradwyaeth eisoes yn cynnwys cynlluniau ar gyfer yr holl safle, gan gynnwys yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig, gan y byddai'r

[1] Caniateir i safleoedd crefyddol gael eu cymeradwyo fel man lle caiff dau berson gofrestru fel partneriaid sifil i'w gilydd (gweler Rheoliad 2C(2) o Reoliadau 2005).

rhain wedi cael eu cyflwyno i’r awdurdod cofrestru ers 1 Gorffennaf 2021, pan oedd gofyn i geisiadau newydd gynnwys cynlluniau o’r fath.

Yn yr un modd, ni fyddai angen ailgyflwyno unrhyw geisiadau o dan Reoliadau 2005 i addasu cymeradwyaethau o safleoedd crefyddol neu geisiadau i adolygu penderfyniadau gan yr awdurdod cofrestru a oedd yn mynd rhagddynt cyn i'r OS ddod i rym. Bwriad y dull hwn yw lleihau’r baich gweinyddol ar leoliadau presennol ac ar awdurdodau cofrestru sy’n gyfrifol am y ceisiadau hyn.

**Amodau**

Yn yr un modd â’r OS cychwynnol, cynigir y byddai amodau penodol ynghlwm wrth ddefnyddio’r ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn awtomatig, yn ogystal â’r amodau sydd ynghlwm wrth y safle adeiledig. Byddai’r awdurdod cofrestru hefyd yn parhau i allu gosod amodau pellach y mae’n eu hystyried yn rhesymol er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau a ddarperir yn addas ac nad yw seremonïau yn achosi niwsans o unrhyw fath, p’un a yw’r seremoni’n cael ei chynnal yn y safle adeiledig neu yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig.

Mae’r amodau a fyddai’n gymwys yn awtomatig i ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn cael eu pennu ar wahân ar gyfer yr ardaloedd hynny sy’n gysylltiedig â safleoedd anghrefyddol, a’r rheini sy’n gysylltiedig â safleoedd crefyddol, er bod llawer o debygrwydd rhyngddynt. Byddai hyn yn dilyn y dull gweithredu a fabwysiadwyd eisoes gan Reoliadau 2005, sy’n pennu amodau ar wahân ar gyfer safleoedd crefyddol a safleoedd anghrefyddol, yn ogystal â’r dull a fabwysiadwyd gan yr OS cychwynnol.

*Gweddus ac urddasol*

Yr amodau a fyddai’n berthnasol i safleoedd crefyddol ac anghrefyddol yw y byddai angen sicrhau cadarnhad yn gyntaf, cyn cynnal unrhyw briodas neu seremoni partneriaeth sifil mewn ardal awyr agored gysylltiedig, y byddai’r seremoni yn digwydd mewn lleoliad gweddus ac urddasol.

Yn achos safleoedd crefyddol, byddai'r cadarnhad hwn yn cael ei sicrhau gan yr awdurdod cofrestru, ac yn achos safleoedd anghrefyddol, byddai'n cael ei sicrhau gan gofrestrydd arolygol yr ardal y mae’r safle cymeradwy wedi’i leoli ynddi. Yn benodol, y gofyniad fyddai sicrhau cadarnhad y byddai’r seremoni, ym marn yr awdurdod cofrestru neu’r cofrestrydd arolygol, yn digwydd mewn lleoliad gweddus ac urddasol yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig, o ystyried y prif ddefnydd, y sefyllfa, y gwaith adeiladu a’r cyflwr.

Gellid ceisio cadarnhad ar unrhyw adeg cyn cynnal seremoni’r briodas neu’r bartneriaeth sifil. Mewn perthynas â newidiadau mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau ([2]) i

2 Gweler: Canllawiau ar gyfer lleoliadau: seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored – GOV.UK (www.gov.uk).

berchnogion ac ymddiriedolwyr safleoedd cymeradwy sy'n argymell trafodaeth gydag awdurdodau cofrestru neu gofrestryddion arolygol cyn trefnu unrhyw seremonïau.

Pan nad yw'r tir dan sylw wedi'i amgylchynu gan ffin sydd wedi'i diffinio'n glir (hy, ffens neu farciwr gweladwy arall), mae canllawiau'r Llywodraeth yn nodi mai cyfrifoldeb y safle cymeradwy yw bodloni'r cofrestrydd arolygol neu'r awdurdod cofrestru bod y lleoliad arfaethedig o fewn ffin y tir.

Os ystyrir nad yw'r lleoliad awyr agored yn ymddangos yn weddus ac yn urddasol ar adeg pan nad oes digon o amser i addasu nodweddion y lleoliad, neu am resymau sy'n golygu na ellir sicrhau cadarnhad mewn pryd ar gyfer y seremoni arfaethedig, yna byddai lleoliadau'n dal i gael defnyddio lleoliad dan do cymeradwy fel opsiwn wrth gefn.

Mewn unrhyw ardaloedd awyr agored cysylltiedig, byddai gan leoliadau hefyd yr hyblygrwydd i newid y lleoliad arfaethedig ar gyfer y seremoni. Fodd bynnag, mae canllawiau'r Llywodraeth yn argymell y dylai'r person cyfrifol yn y safle cymeradwy drafod unrhyw newidiadau ymlaen llaw gyda'r cofrestrydd arolygol neu'r awdurdod cofrestru.

*Adnabyddadwy yn ôl disgrifiad*

Amod arall a fyddai'n berthnasol i ardaloedd awyr agored, p'un a ydynt yn gysylltiedig â safleoedd crefyddol neu anghrefyddol, yw bod yn rhaid gallu adnabod y lleoliad y byddai'r seremoni'n cael ei chynnal ynddo yn ôl disgrifiad. Byddai'r amod hwn yn ategu'r amodau sydd eisoes yn berthnasol i seremonïau a gynhelir mewn safleoedd cymeradwy, sef bod yn rhaid caniatáu mynediad di-dâl i'r cyhoedd i unrhyw seremoni mewn safle cymeradwy.

Byddai'r amod hwn, ynghyd â'r amod o ran arddangos hysbysiad addas (gweler isod) yn helpu i sicrhau y byddai'r rheini sy'n dymuno mynd i seremoni'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, yn gallu dod o hyd i'r seremonïau'n rhwydd, yn enwedig lle mae tiroedd awyr agored safleoedd cymeradwy – fel cestyll, plastai a sŵau – yn helaeth. Gallai disgrifiadau o leoliad y seremoni gynnwys cyfeiriadau at ba mor agos yw i nodweddion allweddol neu dirnodau ar y tir, ei bellter o rai lleoliadau nodedig a chyfeiriadau i ddilyn llwybrau neu arwyddion penodol.

*Hysbysiad addas*

Yn yr un modd â'r OS cychwynnol, byddai'n ofynnol hefyd i leoliadau arddangos hysbysiad addas wrth y fynedfa gyhoeddus i'r safle a'r safle adeiledig. Byddai angen i'r hysbysiad ddatgan bod y safle wedi'i gymeradwyo ar gyfer y seremoni, disgrifio'r lleoliad o fewn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig lle bydd y seremoni'n cael ei chynnal, a rhoi cyfarwyddiadau i'r lleoliad hwnnw yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig. Byddai angen arddangos yr hysbysiad hwn ym mhob mynedfa gyhoeddus i'r safle a'r safle adeiledig am awr cyn y seremoni a thrwy gydol y seremoni. Fel y trafodwyd uchod, byddai'r amodau hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r tiroedd awyr agored yn helaeth, neu lle mae eu nodweddion yn golygu y byddai'n anodd dod o hyd i'r lleoliad fel arall.

*Bwyd a diod*

Fel yn yr OS cychwynnol, cynigir na ellid gwerthu na chaniatáu i unrhyw fwyd na diod gael ei fwyta na'i yfed gan bersonau sy'n ymgasglu at ddibenion y seremoni neu yn ystod y seremoni, ond gellid eu gwerthu neu eu bwyta neu eu hyfed pan nad ydynt yn ymgasglu at y diben hwnnw h.y. mewn mannau eraill yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig. Caniateir yfed diodydd di-alcohol cyn y seremoni. Ar gyfer safleoedd crefyddol, caniateir yfed bwyd neu ddiod fel rhan o unrhyw ddefod grefyddol sy'n cael ei chynnal cyn y seremoni (gweler Cwestiwn 8).

*Materion eraill*

Cyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau i gyplau([3]) ac i berchnogion ac ymddiriedolwyr([4]) safleoedd cymeradwy i helpu i roi'r rheolau newydd a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021 ar waith. Roedd y dogfennau hyn yn sôn am faterion eraill fel cynllunio ar gyfer tywydd garw ac ystyried iechyd a diogelwch, yn ogystal â gofynion a chyfyngiadau eraill a fyddai'n berthnasol i fannau awyr agored cysylltiedig. Cynigir y byddai'r Llywodraeth yn ystyried ac yn diweddaru'r dogfennau canllaw hyn yn unol â'r ymatebion a geir i'r ymgynghoriad hwn.

**Seremonïau Partneriaethau Sifil ar Safleoedd Crefyddol**

Mae rhai safleoedd crefyddol yn gymeradwy, neu gallant gael eu cymeradwyo ar gyfer seremonïau partneriaeth sifil. Mae'r Llywodraeth yn cynnig, fel sy'n wir am newidiadau 1 Gorffennaf 2021 ac fel y disgrifir yn fanylach uchod, y gallai'r seremonïau hyn ddigwydd yn yr awyr agored, yn yr un modd ag y gallent ar gyfer safleoedd anghrefyddol cymeradwy, ar yr amod bod yr amodau perthnasol, fel y nodir uchod, yn cael eu bodloni.

Byddai'r safleoedd crefyddol hyn hefyd yn elwa o gymeradwyo ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn awtomatig. Byddai hyn yn golygu, lle byddai angen caniatâd gan gyrff crefyddol ar gyfer y cais gwreiddiol i gymeradwyo'r safle adeiledig, y byddai hwn yn cael ei ystyried yn ganiatâd i ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored cysylltiedig. Fodd bynnag, yn yr un modd â newidiadau 1 Gorffennaf 2021, ac fel sy'n wir am adeiladau anghrefyddol, byddai'r newid arfaethedig ar sail ganiataol yn unig, sy'n golygu nad oes dyletswydd ar berchnogion ac ymddiriedolwyr safleoedd crefyddol i gynnig partneriaethau sifil yn yr awyr agored.

At ddibenion ceisiadau am gymeradwyaeth newydd neu adnewyddu cymeradwyaeth, byddai angen cael y caniatâd gofynnol[5] ar gyfer yr holl safle crefyddol, gan gynnwys y safle adeiledig a'r ardaloedd awyr agored cysylltiedig. Byddai unrhyw geisiadau newydd ar gyfer addasu

[3] Gweler: Canllawiau i gyplau: seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored – GOV.UK (www.gov.uk)

[4] Gweler: Canllawiau i leoliadau: seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored – GOV.UK (www.gov.uk)

[5] Gweler Rheoliad 2D o Reoliadau 2005 (ynghyd ag Atodlen A1 i'r Rheoliadau) sy'n nodi'r caniatâd sy'n ofynnol ar gyfer cymeradwyo safleoedd crefyddol.

cymeradwyaethau hefyd yn berthnasol yn awtomatig i ardaloedd awyr agored cysylltiedig. Fodd bynnag, unwaith eto, ni fyddai rheidrwydd ar yr adeiladau hyn i gynnal seremonïau partneriaeth sifil yn yr awyr agored.

Byddai'r mesurau diogelu presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol yn aros yn mewn grym er mwyn sicrhau na fyddai'n ofynnol i gyrff crefyddol ganiatáu partneriaethau sifil ar safleoedd crefyddol, oni bai eu bod wedi rhoi caniatâd o dan Reoliadau 2005.

Ar ben hynny, yn yr un modd â newidiadau 1 Gorffennaf 2021, cynigir y byddai darpariaeth benodol yn cael ei chynnwys i sicrhau, mewn perthynas ag eglwys neu gapel yn Eglwys Lloegr, na fyddai'n fwriad gan unrhyw beth yn yr OS ddisodli'r awdurdodaeth ffacwlti.

**Manteision disgwyliedig y cynnig**

Mae manteision disgwyliedig y rhan hon o'r cynnig yn cynnwys:

- Dileu'r cyfyngiadau deddfwriaethol sy'n mynnu bod y rhan fwyaf o seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn cael eu cynnal dan do ac felly'n hyrwyddo effeithlonrwydd yn y sector.

- Cefnogi'r sector priodasau a phartneriaethau sifil drwy roi mwy o ddewis i gyplau ac, o bosibl, helpu lleoliadau i ateb y galw am seremonïau mwy.  Bydd y newid o fudd i bron i dri chwarter y priodasau yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn rhai crefyddol, y mae dros 85% ohonynt yn digwydd ar safleoedd cymeradwy, yn ogystal â'r partneriaethau sifil sy'n digwydd ar safleoedd cymeradwy.

- Gallai rhoi mwy o hyblygrwydd i safleoedd cymeradwy drwy ganiatáu iddynt gynnal seremonïau yn yr awyr agored helpu i liniaru rhai o effeithiau economaidd cyfyngiadau Covid-19 ar leoliadau priodasau a phartneriaethau sifil a gwasanaethau lletygarwch eraill. Ar ben hynny, mae'r caniatâd tybiedig awtomatig sy'n arfaethedig ar gyfer safleoedd cymeradwy presennol o ran defnyddio ardaloedd awyr agored cysylltiedig heb orfod cael cymeradwyaeth arall neu ddarparu cynlluniau diwygiedig yn gyntaf yn lleihau unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar leoliadau.

- Mae diwygio o'r fath yn gam tuag at y Llywodraeth yn ystyried diwygio mwy cynhwysfawr a pharhaus yn dilyn argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

# Y Cynigion: (2) Priodasau Crefyddol yn yr Awyr Agored mewn mannau addoli

Mae'r Llywodraeth yn cynnig gosod offeryn statudol ar wahân a elwir yn orchymyn diwygio deddfwriaethol (GDD), a fyddai'n caniatáu i briodasau crefyddol gael eu cynnal yn yr awyr agored ar dir mannau addoli lle mae'n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar hyn o bryd. Byddai'r GDD hwn yn berthnasol i bob priodas grefyddol, ac eithrio priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr, priodasau Anglicanaidd ar awdurdod trwydded arbennig, ac unrhyw briodasau crefyddol eraill i'r rhai sy'n sâl ac na ddisgwylir iddynt wella. Am resymau hanesyddol neu amgylchiadau eithriadol y salwch, nid oes cyfyngiadau deddfwriaethol ar leoliad y briodas yn y mathau hyn o briodasau crefyddol. Nodir manylion y cynnig isod. Yn wahanol i OS y seremoni sifil, byddai'r newidiadau hyn yn gofyn am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae gofynion gweithdrefnol GDD yn golygu nad yw'n bosibl ei osod o fewn yr un amserlenni â'r OS arfaethedig ar gyfer seremonïau sifil.

## Cefndir

Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli lleoliad dathlu priodasau yn ôl defodau crefyddol yn wahanol ar gyfer gwahanol grefyddau. Mae rheolau penodol yn rheoli lleoliad priodasau Anglicanaidd, priodasau Iddewig a'r Crynwyr, a phob priodas grefyddol arall.

Mae'r rheolau fel a ganlyn yn fras:

- Mae **priodasau Anglicanaidd** yn cael eu dathlu yn ôl defodau Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru ac, yn gyffredinol, maent yn cael eu cynnal mewn eglwys Anglicanaidd neu gapel awdurdodedig. Mae eglwysi plwyf yn awtomatig yn fannau cyfreithlon ar gyfer priodasau dan Ddeddf Priodasau 1949, ond rhaid i gapeli gael eu hawdurdodi, sy'n cynnwys drwy drwydded gan esgob yr esgobaeth. Mae'r rhain yn cynnwys capeli'r llynges, capeli milwrol a chapeli'r awyrlu. Mae gan Archesgob Caergaint hefyd ddisgresiwn, yn seiliedig ar Ddeddf Trwyddedau Eglwysig 1533, i gyhoeddi trwydded arbennig i ganiatáu i briodas Anglicanaidd gael ei chynnal yn unrhyw le. Gellir defnyddio hyn mewn amgylchiadau lle mae person yn ddifrifol wael ac nad oes disgwyl iddo/iddi wella.

- Nid oes unrhyw gyfyngiadau statudol ar leoliad priodasau **Iddewig a phriodasau'r Crynwyr** oherwydd triniaeth hanesyddol y crefyddau hyn dan ddeddfwriaeth priodasau, a gafodd ei ddwyn ymlaen i Ddeddf Priodasau 1949. Felly, mae priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn digwydd mewn lleoliadau yn ôl defnydd Iddewig a phriodasau'r Crynwyr yn y drefn honno ac mae eisoes modd eu cynnal yn yr awyr agored.

- Gall **grwpiau crefyddol eraill** weinyddu priodasau mewn mannau addoli sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Priodasau 1949. Rhaid i'r adeilad gael ei ardystio yn gyntaf fel man addoli crefyddol o dan Ddeddf Mannau Addoli 1855, ac yna rhaid i berchennog neu

ymddiriedolwr yr adeilad gyflwyno cais i gofrestru i'r Cofrestrydd Cyffredinol, ynghyd â thystysgrif gan o leiaf ugain o ddeiliaid tai yn datgan eu bod yn defnyddio'r adeilad fel eu man addoli crefyddol cyhoeddus arferol a'u bod yn dymuno i'r adeilad gael ei gofrestru. Mae rhai gofynion cydsyniad pellach yn berthnasol pan fo mwy nac un defnydd yn cael ei wneud o'r adeilad neu pan fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer priodasau o'r un rhyw. Mae'r ffurflen gais hefyd yn cadarnhau a fydd yr adeilad yn cael ei gofrestru o dan adran 41 o Ddeddf 1949 ar gyfer priodasau rhwng dyn a menyw, adran 43A ar gyfer priodasau cyplau o'r un rhyw, neu'r ddau. Caniateir priodasau hefyd yng nghapeli'r llynges, capeli milwrol a chapeli'r awyrlu sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cofrestrydd Cyffredinol, ac maent yn cael eu caniatáu'n eithriadol, dan Ddeddf Priodasau (Trwydded y Cofrestrydd Cyffredinol) 1970, mewn lleoliadau eraill fel ysbytai, ar gyfer y rhai sy'n sâl, nad oes disgwyl iddynt wella ac na ellir eu symud i fan addoli cofrestredig.

Yn 2017, dathlwyd 23% o briodasau yn ôl defodau crefyddol (54,346 o briodasau). Roedd 74% o'r rhain yn briodasau Anglicanaidd. Roedd 11% yn briodasau Catholig a dathlwyd 11% arall gan enwadau Cristnogol eraill. Cynhaliwyd 4% yn ôl defodau crefyddol nad oeddent yn Gristnogol.[6]

Oherwydd telerau'r pŵer dirprwyedig a ddefnyddiwyd i ddarparu ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ym mis Gorffennaf 2021, ni allai'r OS seremonïau sifil ddarparu ar gyfer priodasau crefyddol yn yr awyr agored. Yn hytrach, ymrwymodd y Llywodraeth i ddeddfu er mwyn galluogi priodasau crefyddol i gael eu cynnal yn yr awyr agored pan fyddai amser Seneddol yn caniatáu hynny. Rydym nawr yn cynnig darparu dewis a hyblygrwydd tebyg i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol ac i gyrff crefyddol sy'n dymuno gweinyddu priodasau yn ardaloedd awyr agored eu mannau addoli. Rydym yn cynnig gwneud hynny drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol, ac er y bydd yn cymryd mwy o amser i ddod i rym (am resymau a eglurir uchod), bydd yn cynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd, fel rydym yn bwriadu ei wneud ar gyfer seremonïau sifil.

## Cwmpas y cynigion

Mae'r Llywodraeth yn cynnig caniatáu i briodasau crefyddol gael eu cynnal yn yr awyr agored ar dir mannau addoli lle mae'n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar hyn o bryd. Yn y bôn, byddai'r ardaloedd awyr agored yn unrhyw ardaloedd awyr agored nad ydynt dan do ac sydd o fewn ffin eiddo'r man addoli. Er mwyn gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd "dan do" neu beidio, rydyn ni'n cynnig atgynhyrchu'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr OS cychwynnol mewn perthynas â safleoedd cymeradwy. Mae hyn yn golygu y byddai ardaloedd yn cael eu hystyried yn rhai "dan do" os ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig. I gael rhagor o fanylion am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig, ac felly'r hyn sy'n cael ei ystyried dan do, edrychwch ar yr Eirfa ar dudalen 4.

Byddai'r newidiadau hyn yn rhai caniataol, sy'n golygu na fyddai'n rhaid i unrhyw grŵp crefyddol, neu berchennog neu ymddiriedolwr man addoli sydd wedi'i gofrestru ar gyfer priodasau, ddarparu

[6] Marriages in England and Wales 2017- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

seremonïau yn yr awyr agored. Byddai mesurau diogelu presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol yn aros yn eu lle, a mater i gyrff crefyddol fyddai nodi a fyddai angen diwygio eu cyfreithiau neu eu defnydd ac, os felly, beth fyddai eu heffaith ac o fewn pa amserlen.

Ni fyddai'r newid hwn yn berthnasol i briodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr, gan nad yw Deddf Priodasau 1949 yn cynnwys unrhyw ofyniad sy'n ymwneud â lleoliadau seremonïau o'r fath. Mewn geiriau eraill, mater i'r ffydd Iddewig a ffydd y Crynwyr yw a ellir cynnal eu priodasau yn yr awyr agored. Ni fyddai'r newid ychwaith yn berthnasol i briodasau Anglicanaidd ar awdurdod trwydded arbennig a all ddigwydd yn unrhyw le, nac i briodasau na seremonïau partneriaeth sifil o dan drwydded y Cofrestrydd Cyffredinol, gan nad oes unrhyw gyfyngiadau statudol ar leoliad y priodasau hyn oherwydd bod y trwyddedau hyn yn cael eu cyhoeddi pan fydd rhywun yn ddifrifol wael ac nad oes disgwyl iddynt wella, ac na ellir eu symud i le sy'n ofynnol fel arfer dan ddeddfwriaeth priodasau a phartneriaethau sifil.

Rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau arfaethedig drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol o dan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Rydym yn cynnig y byddai'n cael ei wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig ymestyn seremonïau yn yr awyr agored i briodasau a seremonïau partneriaeth sifil sy'n cael eu cynnal mewn swyddfeydd cofrestru, nac i'r rhai sy'n cael eu cynnal yn y mannau lle mae unigolion sy'n 'gaeth i'r tŷ' neu'n 'cael eu cadw'n gaeth' yn unol â Deddf Priodasau 1949 neu Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004. Caniateir y lleoliadau eithriadol hyn mewn amgylchiadau lle nad yw unigolion yn gallu mynychu seremonïau mewn lleoliadau sy'n ofynnol fel arall oherwydd salwch, anabledd neu eu bod yn cael eu cadw mewn carchar neu ysbyty diogel, er enghraifft. Mae'r Llywodraeth yn cynnig peidio â gwneud hynny gan nad yw'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod galw am seremonïau yn yr awyr agored o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn ac oherwydd hynny, bydd y Llywodraeth yn ystyried yr amgylchiadau penodol fyddai diwygiadau o'r fath yn eu cynnwys fel rhan o'i hystyriaeth o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith priodasau yn sylfaenol.

Nid yw'r Llywodraeth ychwaith yn cynnig ymestyn seremonïau awyr agored i ystod ehangach o leoliadau awyr agored h.y. i ardaloedd nad ydynt yn gysylltiedig ag adeiladau cymeradwy neu fannau addoli. I wneud hyn, byddai angen diwygio'r gyfraith yn fwy sylfaenol o ran ble y dylai bod modd cynnal seremonïau priodas a phartneriaethau sifil, gan gynnwys torri'r cysylltiad presennol â'r gofynion ar gyfer lleoli priodasau sy'n llifo o adeiladau (sef ymagwedd bresennol cyfraith priodasau a phartneriaethau sifil), yn ogystal ag ystyried gofynion cymeradwyo a rheoleiddio newydd cynhwysfawr ar gyfer mannau awyr agored. Yn hytrach, bydd y Llywodraeth yn ystyried y diwygiadau ehangach hyn yn ofalus ar ôl i Gomisiwn y Gyfraith ddarparu ei argymhellion.

**Ystyrir bod mannau addoli yn cynnwys eu tiroedd awyr agored**

Mae'r Llywodraeth yn cynnig darparu ar gyfer priodasau crefyddol yn yr awyr agored yn gyffredinol drwy fabwysiadu dull tebyg i'r un a gynigiwyd ar gyfer safleoedd cymeradwy. Hynny yw, ystyrir bod mannau addoli yn cynnwys yn fras yr ardaloedd awyr agored o fewn ffiniau eiddo'r ystafelloedd neu'r adeiladau y mae'n rhaid gweinyddu priodasau ynddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaethau yn y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli priodasau crefyddol, a'r

gwahaniaethau pellach yn y fframweithiau ar gyfer gwahanol grefyddau, mae'r Llywodraeth yn gwneud y cynnig a ganlyn.

*Priodasau Anglicanaidd*

Byddai'n cael ei hystyried yn awtomatig fod pob eglwys a chapel, lle mae'n rhaid i briodasau Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru gael eu cynnal, yn cynnwys yr ardaloedd awyr agored o fewn ffin yr eiddo. Gan nad oes unrhyw ofynion statudol ar gyfer cymeradwyo na chofrestru (h.y. gofynion tebyg i'r rhai sy'n berthnasol i safleoedd ar gyfer priodasau sifil neu adeiladau ar gyfer crefyddau eraill), ni fyddai unrhyw un ohonynt yn berthnasol i'r ardaloedd awyr agored ar dir yr eglwysi neu'r capeli. Mater i Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru fyddai penderfynu a fyddai modd neu a ddylid cynnal priodasau o'r fath ac, os felly, ym mha leoliadau a/neu ym mha amgylchiadau.

Yn ogystal, ni fyddai unrhyw effaith ar allu esgobion i drwyddedu na dulliau eraill o awdurdodi capeli dan gyfraith priodasau, gan gynnwys capeli'r llynges, capeli milwrol a chapeli'r awyrlu, nac ychwaith ar y gweithdrefnau i roi gwybod i'r Cofrestrydd Cyffredinol am gapeli sy'n cael eu trwyddedu. Ni fyddai angen hysbysu'r Cofrestrydd Cyffredinol o fwriad i ddefnyddio ardaloedd awyr agored capeli awdurdodedig neu eglwysi plwyf.
Byddai'r mesurau gwarchod presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol yn aros yn eu lle fel na fyddai unrhyw reidrwydd ar Eglwys Loegr na'r Eglwys yng Nghymru i ganiatáu priodasau yn yr awyr agored. Ar ben hynny, cynigir y byddai darpariaeth benodol yn cael ei chynnwys i sicrhau, mewn perthynas ag eglwys neu gapel yn Eglwys Loegr, na fyddai'n fwriad gan unrhyw beth yn yr GDD i ddisodli'r awdurdodaeth ffacwlti.

Byddai'n cael ei hystyried yn awtomatig fod unrhyw ofynion statudol sy'n nodi fod yn rhaid i ddogfennau sy'n rhagarweiniol i'r briodas neu ar ei hôl nodi lleoliad y briodas yn cynnwys tir awyr agored yr eglwys neu'r capel. Bwriad y dull gweithredu arfaethedig hwn yw lleihau unrhyw faich gweinyddol ychwanegol ar yr Eglwys, cyplau ac ar wasanaethau cofrestru.

*Priodasau yn ôl crefyddau eraill (ar wahân i ffydd Iddewig neu'r Crynwyr)*

Fel y nodwyd uchod, dim ond mewn mannau addoli ardystiedig sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cofrestrydd Cyffredinol o dan Ddeddf Priodasau 1949 y gellir gweinyddu priodasau yn ôl defodau crefyddau nad ydynt yn rhai Anglicanaidd, Iddewig na'r Crynwyr. Rhaid i'r cais am gofrestru gynnwys tystysgrif gan o leiaf ugain o ddeiliaid tai yn datgan eu bod yn defnyddio'r adeilad fel man addoli crefyddol cyhoeddus arferol, a'u bod yn dymuno i'r adeilad gael ei gofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau.

Mae'r cais am gofrestru hefyd yn cadarnhau a ddylid ei gofrestru ar gyfer priodasau rhwng dyn a menyw, ar gyfer priodasau i gyplau o'r un rhyw, neu'r ddau. Os yw'r cofrestriad ar gyfer priodasau o'r un rhyw, mae gofyniad pellach am dystysgrif bod yr awdurdod llywodraethu perthnasol mewn perthynas â'r adeilad wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio'r adeilad ar gyfer priodasau o'r un rhyw. Ar gyfer cofrestru adeiladau sy'n 'adeiladau eglwysig a rennir', mae hefyd angen caniatâd ysgrifenedig gan awdurdodau llywodraethu'r ddwy eglwys. Adeiladau eglwysig a rennir yw'r rhai a rennir gan fwy nag un grŵp, sydd fel arfer yn enwadau gwahanol o'r un ffydd.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dull gweithredu canlynol ar gyfer y gofynion hyn.

Yn gyntaf, ystyrir yn awtomatig bod pob adeilad a chapel a gofrestrwyd ar hyn o bryd ar gyfer gweinyddu priodasau dan Ddeddf Priodasau 1949 yn cynnwys y tir awyr agored o fewn ffin eiddo'r man addoli. Ni fyddai angen newid y cofrestriadau i enwi neu ddisgrifio'r tir awyr agored, a fyddai'n cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir i bennu fod eglwysi a chapeli Anglicanaidd yn cynnwys eu tiroedd awyr agored yn awtomatig heb ofyniad pellach i'w disgrifio.

At hynny, ni fyddai angen diwygio nac ailgyflwyno tystysgrifau gan ddeiliaid tai a chaniatâd gan awdurdodau llywodraethu perthnasol a oedd eisoes wedi'u cyflwyno gyda'r ceisiadau am y cofrestriadau.

Ar gyfer ceisiadau newydd am gofrestru ar ôl y dyddiad y daw'r GDD i rym, byddai unrhyw geisiadau, ac unrhyw gofrestriadau, yn ymestyn yn awtomatig i dir awyr agored y man addoli neu'r capel ardystiedig. Ni fyddai unrhyw newid i'r gofynion ardystio o dan Ddeddf 1855 (h.y. bod yr adeilad yn fan addoli). Ni fyddai angen pennu na disgrifio unrhyw dir awyr agored gyda'r cais am gofrestru i'r Cofrestrydd Cyffredinol. Fodd bynnag, byddai newidiadau fel a ganlyn. Byddai angen newid gofyniad ardystio'r deiliaid tai sy'n cefnogi'r cais i gofrestru'r adeilad a'r tir awyr agored o dan Ddeddf 1949 fel y byddai'n rhaid i ddeiliaid tai ddatgan eu bod yn dymuno i'r tir awyr agored, yn ogystal â'r adeilad, gael ei gofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau. (Ni fyddai angen iddynt dystio bod y tir awyr agored yn cael ei ddefnyddio fel man addoli.) Byddai hefyd angen i'r caniatâd gan yr awdurdodau llywodraethu i ymestyn i'r tir awyr agored, boed hynny ar gyfer defnyddio'r adeilad ar gyfer priodasau o'r un rhyw, neu lle mae'r adeilad yn cael ei rannu.

Yn ogystal, byddai'n cael ei hystyried yn awtomatig fod unrhyw ofynion statudol sy'n nodi fod dogfennau sy'n rhagarweiniol i'r briodas neu ar ei hôl yn nodi lleoliad y briodas yn cynnwys tir awyr agored y man addoli.

Byddai'r cynnig hwn yn osgoi neu'n lleihau unrhyw feichiau gweinyddol ychwanegol ar gyfer cyrff crefyddol neu berchnogion eraill neu ymddiriedolwyr mannau addoli, yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau cofrestru.

Byddai'r mesurau gwarchod presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol yn aros yn eu lle fel na fyddai unrhyw reidrwydd ar gyrff crefyddol i ganiatáu priodasau yn yr awyr agored.

**Amodau**

Gan nad yw'r fframwaith cyfraith priodasau presennol ar gyfer priodasau crefyddol yn gosod amodau ar ddefnyddio mannau addoli cofrestredig ar gyfer gweinyddu priodasau yn debyg i'r amodau sy'n berthnasol i ddefnyddio safleoedd cymeradwy ar gyfer seremonïau sifil, rydym yn cynnig parhau â'r polisi hwn ar gyfer tir awyr agored y mannau addoli cofrestredig. Felly, ni fyddai unrhyw amodau tebyg i'r rhai a osodwyd ar gyfer seremonïau sifil (gweler tudalen 11). Yn hytrach, mater i'r grwpiau crefyddol fyddai penderfynu a ddylid defnyddio tir awyr agored eu mannau addoli i weinyddu priodasau ac o dan ba amgylchiadau y byddai'n gwneud.

**Manteision a ragwelir yn sgil Cynnig 2**

Mae manteision disgwyliedig y cynnig hwn yn cynnwys:

- Dileu'r cyfyngiadau deddfwriaethol sy'n mynnu bod y rhan fwyaf o seremonïau priodas yn cael eu cynnal dan do, gan felly hybu effeithlonrwydd yn y sector drwy alluogi cyplau i gael mwy o ddewis o ran lleoliad eu seremonïau, ac i gyrff crefyddol gael mwy o hyblygrwydd o ran lleoliad eu seremonïau os ydynt yn dewis cynnig hynny. Bydd y newid hwn o fudd i'r rhan fwyaf o'r bron i 25% o briodasau yn y DU sy'n rhai crefyddol.

- Yn yr un modd â'r diwygiadau presennol a'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer safleoedd cymeradwy, ni fyddai unrhyw weithdrefnau newydd, neu dim ond rhai bach iawn; yn hytrach, byddai'r lleoliadau lle gall cyplau gael priodas grefyddol yn cynnwys tir awyr agored yr adeiladau crefyddol a ganiateir fel arall yn awtomatig, a byddai'r holl ddogfennau a gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu hystyried fel rhai sy'n ymestyn i'r lleoliadau awyr agored hynny. Bydd hyn yn cynnig hyblygrwydd ac yn hyrwyddo effeithlonrwydd ar draws y sector.

- Er y cymerwyd na fyddai unrhyw gyfyngiadau'n gysylltiedig â Covid yn cael eu hailgyflwyno ar seremonïau priodas ar ôl i'r cynnig ddod i rym, pe bai'r rhain yn cael eu hailgyflwyno, ac yn dibynnu ar eu natur, gallai'r mesur gynnig manteision i gyrff crefyddol a chyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol, drwy ganiatáu i briodasau a fyddai fel arall wedi cael eu gohirio, neu eu lleihau, fynd yn eu blaen os caniateir i bobl ymgynnull yn yr awyr agored.

- Byddai'r cynnig hwn hefyd yn rhoi dewis a hyblygrwydd i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol sy'n debyg i'r dewis a'r hyblygrwydd i gyplau sy'n dymuno cael seremonïau sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy.

Mae'r Llywodraeth eisiau annog y sefydlogrwydd a'r ymrwymiad mae priodasau a phartneriaethau sifil yn ei gynnig mewn bywyd teuluol.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn. Cewch ateb cynifer neu gyn lleied o gwestiynau ag y dymunwch. Wrth ymateb i bob un, neu unrhyw un, o'r cwestiynau hyn, nodwch a rhowch fanylion ynghylch:

- a ydych chi'n bodloni'r disgrifiadau canlynol:
  - unigolyn a gymerodd ran mewn seremoni priodas sifil/partneriaeth sifil yn yr awyr agored ar ôl newidiadau 1 Gorffennaf 2021, neu unigolyn sy'n gobeithio gwneud hynny yn y dyfodol;
  - perchennog, ymddiriedolwr neu gynrychiolydd safle cymeradwy, safle sy'n ceisio cael ei gymeradwyo, neu safle a allai geisio cael ei gymeradwyo;
  - cynrychiolydd awdurdod sy'n gyfrifol am gymeradwyo safleoedd a/neu am gydymffurfio ag amodau sy'n ymwneud â chymeradwyaethau, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag ardaloedd awyr agored cysylltiedig;
  - cynrychiolydd gwasanaethau cofrestru priodasau sifil a phartneriaethau sifil sy'n eistedd mewn awdurdodau lleol;
  - cynrychiolydd corff neu grŵp crefyddol;
  - perchennog neu ymddiriedolwr neu fan addoli cofrestredig ar gyfer gweinyddu priodasau;
  - person awdurdodedig o dan Ddeddf Priodasau 1949;
  - gweinydd (*celebrant*);
  - unigolyn arall neu gynrychiolydd cwmni neu gorff sy'n ymwneud â'r diwydiant priodasau a phartneriaethau sifil;
  - unigolyn arall neu gynrychiolydd cwmni neu gorff y mae'r cynnig hwn yn effeithio arno neu y gallai effeithio arno.

- p'un a ydych chi'n berson sydd ag un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig a restrir isod, neu'n cynrychioli pobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig hyn. Os felly, nodwch pa rai o'r nodweddion gwarchodedig hyn sy'n berthnasol:
  - oedran;
  - anabledd;
  - ailbennu rhywedd;
  - priodas a phartneriaeth sifil;
  - beichiogrwydd a mamolaeth;
  - hil;
  - crefydd neu gred;
  - rhywedd;
  - cyfeiriadedd rhywiol.

*Offeryn statudol arfaethedig priodasau sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored*

1. **Ydych chi wedi cael profiad cysylltiedig â seremoni awyr agored ar dir safle cymeradwy ers 1 Gorffennaf 2021? Beth oedd yn gweithio'n dda neu ddim yn gweithio'n dda?**

2. **Ydych chi wedi cael profiad o gynllunio neu'n dymuno cael seremoni awyr agored ar dir safle cymeradwy ers 1 Gorffennaf 2021? Beth oedd yn gweithio'n dda neu ddim yn gweithio'n dda?**

3. **Ydych chi wedi cael profiad o wneud cais am gymeradwyaeth neu adnewyddu cymeradwyaeth ar gyfer safle sydd â mannau awyr agored cysylltiedig ers 1 Gorffennaf 2021? Beth oedd yn gweithio'n dda neu ddim yn gweithio'n dda?**

4. **Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar sut mae'r darpariaethau presennol sy'n caniatáu i briodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored gael eu cynnal ar safleoedd cymeradwy wedi gweithio ers dod i rym ar 1 Gorffennaf 2021? Oes gennych chi unrhyw sylw ynghylch sut byddai'r cynnig i barhau â'r newidiadau hyn yn gweithio?**

5. **Ydych chi'n credu y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy barhau ar ôl 5 Ebrill 2022 pan ddaw'r ddarpariaeth bresennol i ben? Rhowch resymau dros eich ateb.**

6. **Ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r opsiwn i gynnal seremonïau priodas sifil phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar dir safleoedd cymeradwy?**
    a. **Os ydych chi, pa ffactorau sy'n gwneud hyn yn debygol?**
    b. **Os nad ydych chi, beth fyddai'n eich atal rhag defnyddio'r ddarpariaeth?**

7. **Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth i gyd-fynd â'r offeryn statudol a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021? A fyddai modd ei wella, ac os felly, sut?**

8. **Ar hyn o bryd, mae amod sy'n cyfyngu ar werthu bwyd neu ddiodydd alcoholig cyn y seremoni, boed hynny yn yr ystafell berthnasol yn yr eiddo adeiledig neu wrth ymgasglu yn yr awyr agored at ddibenion y seremoni. (Caniateir yfed diodydd di-alcohol yn yr ystafell neu'r lleoliad awyr agored cyn y seremoni, ac felly hefyd unrhyw fwyd neu ddiod sy'n cael ei fwyta neu ei yfed fel rhan o unrhyw seremoni grefyddol a gynhelir cyn y briodas.)**
    a. **A oes gennych chi unrhyw brofiad o'r amod hwn, neu sylwadau yn ei gylch?**
    b. **A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud am y cynnig i gadw'r amod hwn? Nid yw'r amod yn OS mis Gorffennaf yn nodi'n benodol yr hyn a olygir wrth ymgasglu at ddibenion y seremoni – a oes gennych unrhyw sylwadau ar hyn ac a ddylai gyfeirio at y man yn y tir awyr agored lle bydd y seremoni'n cael ei chynnal?**
    c. **Ydych chi'n cytuno y dylai'r amod fod yn berthnasol p'un a yw'r seremoni'n digwydd mewn ystafell yn yr eiddo adeiledig neu mewn ardal gysylltiedig yn yr awyr agored? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.**

d. **A yw eich atebion yr un fath neu'n wahanol yn dibynnu a yw'r ardaloedd awyr agored yn gysylltiedig ag adeiladau crefyddol neu rai anghrefyddol?**

9. **Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?**

*Cwestiynau ychwanegol ar gyfer lleoliadau (i'r graddau nad yw'r ymatebion uchod wedi ymdrin â hwy eisoes):*

10. **Ydych chi wedi cynnig neu gynnal seremonïau yn yr awyr agored ar eich safle ers 1 Gorffennaf 2021?**
    a. **Beth yw lefel y diddordeb sydd wedi bod? Rhowch unrhyw ddata sydd ar gael.**
    b. **Beth oedd yn gweithio'n dda neu ddim yn gweithio'n dda?**

11. **A wnaeth natur dros dro'r OS cychwynnol (h.y., bod newidiadau 1 Gorffennaf 2021 yn dod i ben ar 5 Ebrill 2022) eich atal rhag cynnal seremonïau yn yr awyr agored, neu rhag gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer eich safle?**
    a. **Ydych chi'n gwybod a oedd gan gyplau ddiddordeb mewn cael seremoni yn yr awyr agored ond bod natur dros dro'r OS cychwynnol wedi'u hatal rhag gwneud hynny? Rhowch unrhyw ddata sydd ar gael.**
    b. **Ydych chi'n fwy tebygol o fanteisio ar y cyfle o wybod na fyddai cyfyngiad amser ar yr OS arfaethedig?**

12. **Oeddech chi/ydych chi'n rhagweld unrhyw refeniw neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hwyluso priodasau sifil neu bartneriaethau sifil yn yr awyr agored? Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl am y refeniw a'r costau ychwanegol hyn.**
    a. **Wnaethoch chi fuddsoddi mewn seilwaith ychwanegol?**
    b. **Ydych chi'n credu bod unrhyw gostau ychwanegol yn werth chweil yn fasnachol, neu'n rhwystr rhag darparu seremonïau yn yr awyr agored?**

13. **Ar gyfer lleoliadau priodasau sifil neu bartneriaethau sifil gyda statws safle cymeradwy neu rai heb y statws hwnnw:**
    a. **Sut byddai'r cynnig i barhau i ganiatáu seremonïau yn yr awyr agored yn effeithio ar eich prosesau gweinyddol wrth drefnu priodasau / seremonïau partneriaeth sifil yn yr awyr agored? Rhowch enghreifftiau.**
    b. **Sut byddai'r cynnig yn effeithio ar y costau a wynebir gan eich lleoliad wrth drefnu seremonïau priodas/partneriaeth sifil yn yr awyr agored? Rhowch enghreifftiau.**
    c. **Pa effaith fyddai'r cynnig yn ei gael ar yr amser sy'n cael ei dreulio'n trefnu seremonïau priodas/partneriaeth sifil yn yr awyr agored?**

14. **Ydych chi wedi profi unrhyw fanteision neu anawsterau ymarferol sy'n deillio o'r amodau ar gyfer defnyddio mannau awyr agored cysylltiedig i gynnal seremonïau? (Trafodir y cynnig i barhau â'r amodau hyn ar dudalennau 11-13 y papur hwn. Mae'r amodau hefyd wedi'u rhestru eto isod er gwybodaeth). Os nad ydych chi wedi cael**

**unrhyw brofiad gyda'r amodau eto, ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau neu fanteision? Rhowch fanylion.**

a. **Gofyniad i sicrhau cadarnhad bod y lleoliad yn weddus ac urddasol (gweler tudalen 11 y papur hwn);**
b. **Gofyniad bod modd adnabod y lleoliad yn ôl disgrifiad (gweler tudalen 12 y papur hwn);**
c. **Gofyniad i arddangos hysbysiad addas gyda gwybodaeth benodol (gweler tudalen 12 y papur hwn);**
d. **Cyfyngiadau ar fwyta a gwerthu bwyd a diod (gweler tudalen 12 y papur hwn). (gweler Cwestiwn 8)**

15. **Ydych chi wedi cael unrhyw brofiad o gymhwyso'r diffiniad o "dan do" (hy, yn hytrach nag awyr agored) neu ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau gyda hyn yn ymarferol?**

16. Efallai y bydd lleoliadau'n dymuno cael 'Cynllun B' addas os bydd tywydd garw. Gallai hwn fod yn strwythur wedi'i orchuddio yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig, neu'n ystafell dan do sy'n 'safle cymeradwy' ei hun. **Ydych chi'n rhagweld, neu ydych chi wedi profi unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth amgen ar gyfer tywydd garw? A allai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau i gynnig neu beidio â chynnig seremonïau yn yr awyr agored, neu a yw hyn wedi dylanwadu ar hynny?**

17. **Er mwyn cynnig lle wrth gefn mewn tywydd garw, a fyddech chi'n bwriadu darparu trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored er mwyn cadw eich ardal dan do yn rhydd i gynnal seremonïau ychwanegol, neu a fyddech chi'n bwriadu cadw eich strwythur(au) dan do presennol yn wag at y diben hwn? Pe baech chi'n cynllunio trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored, beth fyddai'r rhain? A fydden nhw'n bodloni'r diffiniad arfaethedig o "awyr agored" neu a fydden nhw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig ac felly "dan do" yn ôl y diffiniad arfaethedig (Gweler yr Eirfa)?**

***Gorchymyn diwygio deddfwriaethol arfaethedig ar briodasau crefyddol yn yr awyr agored***

18. **Ydych chi'n cefnogi cynnig y Llywodraeth i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli lle mae'n rhaid cynnal priodasau, cyn belled fod y corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.**

19. **Ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r opsiwn i gynnal seremonïau priodas crefyddol yn yr awyr agored ar dir mannau addoli?**

    a. **Os ydych chi, pa ffactorau sy'n gwneud hyn yn debygol?**
    b. **Os nad ydych chi, beth fyddai'n eich atal rhag defnyddio'r ddarpariaeth?**

20. **Ydych chi'n cefnogi'r cynigion:**

    a. **i dybio bod eglwysi a chapeli Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru yn cynnwys yn awtomatig eu tir awyr agored fel y gellir gweinyddu priodasau ar y tir hwn os yw'r priod Eglwys yn caniatáu hynny?**

**b. i dybio bod cofrestriadau presennol mannau addoli ar gyfer crefyddau eraill (heblaw ffydd Iddewig a'r Crynwyr) yn cynnwys yn awtomatig eu tir awyr agored fel y gellir gweinyddu priodasau ar y tir hwn os yw'r corff crefyddol priodol yn caniatáu hynny?**
**c. y byddai unrhyw geisiadau newydd i gofrestru mannau addoli yn ymestyn yn awtomatig i'r tir awyr agored, ond y dylai deiliaid tai ardystio eu bod yn dymuno i'r cofrestriad ymestyn i'r tir awyr agored, ac y dylai cydsyniadau gan awdurdodau llywodraethu perthnasol ymestyn hefyd i'r tir awyr agored?**

21. **Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw anawsterau'n codi wrth glustnodi neu ddefnyddio'r tir awyr agored yn y man addoli?**

**22. Ydych chi'n cefnogi cynnig y Llywodraeth i beidio â chyflwyno unrhyw amodau ar gyfer defnyddio tir awyr agored; sy'n debyg i'r rhai a orfodir ar gyfer seremonïau sifil?**

**23. A fyddai'r ffaith bod modd cynnal seremonïau priodas crefyddol yn yr awyr o dan Gynnig 2 yn dylanwadu ar eich dewis chi i briodi drwy ddefnyddio seremoni grefyddol ai peidio?**

**24. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?**

*Cwestiynau ychwanegol ar gyfer cyrff crefyddol neu berchnogion neu ymddiriedolwyr eraill mannau addoli (i'r graddau nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes yn yr ymatebion uchod):*

**25. Ydych chi'n rhagweld unrhyw refeniw ychwanegol neu fanteision anariannol eraill yn gysylltiedig â hwyluso priodasau crefyddol yn yr awyr agored? Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl am y rhain.**
**a. A fyddech chi'n buddsoddi mewn seilwaith ychwanegol?**
**b. Ydych chi'n credu bod unrhyw gostau ychwanegol yn rhwystr rhag darparu seremonïau yn yr awyr agored?**

**26. Er mwyn cynnig lle wrth gefn mewn tywydd garw, a fyddech chi'n bwriadu darparu trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored er mwyn cadw eich ardal dan do yn rhydd i gynnal seremonïau ychwanegol, neu a fyddech chi'n bwriadu cadw eich strwythur(au) dan do presennol yn wag at y diben hwn? Pe baech chi'n cynllunio trefniadau wrth gefn yn yr awyr agored, beth fyddai'r rhain? A fydden nhw'n bodloni'r diffiniad arfaethedig o "awyr agored" neu a fydden nhw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig ac felly "dan do" yn ôl y diffiniad arfaethedig (Gweler yr Eirfa)?**

**27. Fyddech chi'n rhagweld:**

**a. unrhyw newidiadau i'ch prosesau gweinyddol wrth drefnu priodas yn yr awyr agored yn hytrach nag un dan do? Rhowch enghreifftiau.**
**b. unrhyw gostau a wynebir gan eich sefydliad/man addoli wrth drefnu priodas yn yr awyr agored i fod yn wahanol i un dan do?**

c. **ei bod yn gyflymach neu'n arafach i drefnu priodas yn yr awyr agored yn hytrach na dan do?**

***Cydraddoldebau (yn ymwneud â seremonïau sifil a chrefyddol)***

28. **Yn ogystal â'r ffyrdd y mae eich ymatebion i'r cwestiynau uchod yn cyfeirio at unrhyw effeithiau rydych chi wedi'u profi fel person sydd ag un neu ragor o nodweddion gwarchodedig, neu aelod o grŵp sy'n eu rhannu, a oes unrhyw effeithiau eraill rydych chi wedi'u profi neu effeithiau rydych chi'n rhagweld y bydd y cynnig yn eu cael ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**
    a. **Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn (gweler tudalen 46 yn benodol)? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.**
    b. **Ydych chi'n rhagweld unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb o ganlyniad i gwmpas y cynigion hyn (gweler yr adrannau 'Cwmpas' o dan Gynigion 1 a 2)?**
    c. **Oes unrhyw ddulliau lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi'u hystyried?**

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (ee, aelod o'r cyhoedd ac ati) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 24 Ionawr 2022 at:

**Natasha Colvine**
Ministry of Justice
Family Justice
Area 7.19
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost**: outdoorweddings@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio’r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk.

Gellir gwneud cais am gopïau o’r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan outdoorweddings@justice.gov.uk

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn cyn pen 3 mis i’r ymgynghoriad ddod i ben. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o’r bobl a’r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, ynghyd â'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei wneud yn hysbys i'r cyhoedd pan fydd yr Adran yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r rheolweithiau ar gyfer yr hawl i weld gwybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn bwysig er budd tryloywder fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a beth yw eu barn. Yn ogystal â hyn, gall yr Adran ddewis peidio â thynnu'ch enw/manylion o'ch ymateb yn ddiweddarach, er enghraifft, os ydych yn newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os bydd yr Adran o'r farn ei bod er budd y cyhoedd o hyd i'r manylion hynny fod ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych chi am i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddienw (er enghraifft fel 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd'). Fel arall, efallai byddwch chi'n dewis peidio ag ymateb o gwbl.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

| | |
|---|---|
| **Teitl:** Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored<br>**IA:** MoJ016/2021<br>**Cyfeirnod RPC:** Amh.<br>**Adran neu asiantaeth arweiniol:** Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>**Adrannau neu asiantaethau eraill:** Y Swyddfa Gartref (Swyddfa Gofrestru Gyffredinol) | **Asesiad Effaith (AE)**<br>**Dyddiad:** 10/12/21<br>**Cam:** Ymgynghoriad<br>**Ffynhonnell ymyrraeth:** Domestig<br>**Math o gam gweithredu:** Is-ddeddfwriaeth<br>**Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:**<br>outdoorweddings@justice.gov.uk |

# Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau

**Barn RPC:** Amherthnasol

**Cost yr opsiwn a ffafrir (neu'r un sydd fwyaf tebygol)** (mewn prisiau 2021)

| **Cyfanswm Cyfredol Net y Gwerth Cymdeithasol** Amh. | **Gwerth Cyfredol Net y Busnes** Amh. | **Cost net i'r busnes bob blwyddyn** Amh. | **Statws Targed Effaith Busnes** Darpariaeth reoleiddio nad yw'n gymwys |
|---|---|---|---|

**Beth yw'r broblem dan sylw? Pam mae angen i'r llywodraeth weithredu neu ymyrryd?**

Ym mis Mehefin 2021, gosododd y Llywodraeth Offeryn Statudol (OS) i ddiwygio Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 i ganiatáu i seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil ddigwydd yn yr awyr agored, mewn "ardaloedd awyr agored cysylltiedig" ar safleoedd cymeradwy. Roedd yr OS yn ceisio helpu'r sector priodasau i adfer ar ôl effaith Covid-19, drwy roi mwy o ddewis i gyplau a lleoliadau i ateb y galw am seremonïau mwy. Mesur dros dro oedd yr OS gwreiddiol a fydd yn dod i ben ar 5 Ebrill 2022, sy'n golygu ar ôl y dyddiad hwn a heb estyniad, na fydd priodasau awyr agored a phartneriaethau sifil yn bosibl mwyach, ac y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol a roddir i leoliadau a chyplau drwy'r OS cychwynnol yn cael ei golli. Felly, mae angen i'r Llywodraeth ymyrryd er mwyn gwneud i'r newidiadau hyn ymestyn yn amhenodol y tu hwnt i'r dyddiad hwn. Credwn fod hyn yn angenrheidiol er mwyn parhau i gefnogi'r sector priodasau a phartneriaethau sifil a rhoi mwy o ddewis i gyplau sy'n dymuno priodi a ffurfio partneriaethau sifil. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig ymestyn yr opsiwn o ganiatáu seremonïau yn yr awyr agored i briodasau crefyddol drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol ar wahân, a fyddai'n rhoi dewis a hyblygrwydd tebyg i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol ac i'r cyrff crefyddol sy'n eu gweinyddu.

**Beth yw amcanion polisi'r cam gweithredu neu'r ymyriad a'r effeithiau a fwriedir?**

Amcan y polisi yw sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored yn parhau am gyfnod amhenodol ac yn cael ei hymestyn i briodasau crefyddol. Byddai'r cynigion hefyd yn galluogi cyplau i gael mwy o ddewis o ran lleoliad eu seremonïau, ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i adeiladau cymeradwy a chyrff crefyddol o ran y lleoliadau ar gyfer seremonïau os ydynt yn dewis cynnig hynny. Byddai'r cynigion yn dileu'r cyfyngiadau deddfwriaethol sy'n mynnu bod y rhan fwyaf o seremonïau priodas a phartneriaeth sifil yn cael eu cynnal dan do gan felly hyrwyddo effeithlonrwydd yn y sector. Er mwyn osgoi gweithdrefnau rheoleiddio ychwanegol ar y cam hwn, byddai'r polisi'n dod i rym drwy bennu'n awtomatig bod lleoliadau dan do a ganiateir ar hyn o bryd yn cynnwys lleoliadau awyr agored o fewn terfynau'r eiddo. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr achos dros ddiwygio mwy cynhwysfawr a pharhaus unwaith y bydd Comisiwn y Gyfraith wedi cwblhau ei adolygiad **ehangach** o gyfraith priodas.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried, gan gynnwys unrhyw ffyrdd eraill yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffafrir (mae rhagor o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)**

- **Opsiwn 0: Gwneud dim (llinell sylfaen):** Gadael i'r OS presennol ddod i ben ar 5 Ebrill 2022.
- **Opsiwn 1:** Diwygio Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 ('Rheoliadau 2005') drwy OS newydd a fyddai'n cael effaith amhenodol.
- **Opsiwn 2:** Diwygio deddfwriaeth gan gynnwys yn bennaf Ddeddf Priodasau 1949 drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored o fewn tir mannau addoli lle mae'n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar hyn o bryd.

Opsiwn 1 a 2 yw'r opsiynau sy'n cael ei ffafrio gan mai nhw sy'n bodloni'r amcanion polisi orau.

**A fydd y polisi yn cael ei adolygu?** Mae'n bosibl, yn dibynnu ar ganlyniad Adolygiad Comisiwn y Gyfraith **dyddiad:** Amh.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r mesur hwn yn debygol o effeithio ar fuddsoddi a masnach ryngwladol? | | Nac ydy | | |
| A yw unrhyw rai o'r sefydliadau hyn o fewn eu gwmpas? | **Micro** Ydy | **Bach** Ydy | **Canolig** Ydy | **Mawr** Ydy |
| Beth yw'r newid $CO_2$ cyfatebol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr? (Cyfwerth â miliwn tunnell o $CO_2$) | | **Wedi'i fasnachu:** | **Heb ei fasnachu:** Amh. | |

***Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith, ac rwyf wedi fy modloni ei fod, ac ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, yn rhoi barn resymol am gostau, buddion ac effaith debygol yr opsiynau pennaf.***

Llofnod y Gweinidog cyfrifol ........................ Dyddiad: Dydd Llun 14 Rhagfyr 2021

# Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

## Opsiwn Polisi 1

**Disgrifiad:** Diwygio Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 (‘Rheoliadau 2005’) drwy OS newydd a fyddai’n cael effaith amhenodol.

**ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

| Blwyddyn Sail Brisiau 2021 | Blwyddyn Sylfaen y Gwerth | Cyfnod Mewn Blynyddoedd 10 | Budd Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Isel Amh. | Uchel Amh. | Amcangyfrif Gorau: |

| COSTAU (£m) | Cyfanswm Pris Trosiannol | | Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys pris Trosiannol) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| Isel | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** |
| Uchel | Amh. | | Amh. | **Amh.** |
| Amcangyfrif Gorau | Amh. | | Amh. | **Amh.** |

**Disgrifiad a graddfa’r costau allweddol â gwerth ariannol yn ôl y ‘prif grwpiau yr effeithir arnynt’**

Nid yw wedi bod yn bosibl mesur unrhyw gostau â gwerth ariannol sy’n gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Byddwn yn ceisio mireinio ein dealltwriaeth o gostau'r opsiwn drwy gael tystiolaeth o’r ymgynghoriad.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol yn ôl ‘y prif grwpiau yr effeithir arnynt’**

Byddai lleoliadau â safleoedd addas sy’n dymuno cael cymeradwyaeth newydd neu adnewyddu cymeradwyaeth sy’n cynnwys gofod awyr agored yn wynebu costau amser ychwanegol wrth ddarparu cynllun sy’n dangos amlinelliad o ffiniau eu safleoedd, a gallai lleoliadau wynebu cost amser yng nghyswllt yr arolygiad a’r cadarnhad bod yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn ‘weddus ac urddasol’ cyn unrhyw seremoni. Efallai y bydd lleoliadau sy’n dewis cynnig seremonïau yn yr awyr agored ar eu safleoedd cymeradwy yn wynebu costau bach sy’n gysylltiedig â chynnal a chadw lle wrth gefn os bydd tywydd garw. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl mai dim ond y cwmnïau hynny sy’n gallu gwrthbwyso’r costau hyn yn ddigonol drwy gynnig amrywiaeth ehangach o briodasau neu seremonïau partneriaeth sifil a fyddai’n wynebu’r costau hyn.

| BUDDION (£m) | Cyfanswm Pris Trosiannol (Pris Cyson) | | Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys pris Trosiannol) | Cyfanswm y Buddion (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| Isel | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** |
| Uchel | Amh. | | Amh. | **Amh.** |
| Amcangyfrif Gorau | Amh. | | Amh. | **Amh.** |

**Disgrifiad a graddfa’r buddion allweddol â gwerth ariannol yn ôl y ‘prif grwpiau yr effeithir arnynt’**

Nid yw wedi bod yn bosibl mesur unrhyw fuddion â gwerth ariannol sy’n gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Byddwn yn ceisio mireinio ein dealltwriaeth o fanteision yr opsiwn hwn drwy gael tystiolaeth o’r ymgynghoriad.

**Buddion allweddol eraill heb werth ariannol yn ôl ‘y prif grwpiau yr effeithir arnynt’**

Byddai cyplau sy’n priodi neu’n ymrwymo i bartneriaeth sifil mewn Safle Cymeradwy yn elwa o ddewis ychwanegol o ran lle byddai eu seremoni’n cael ei chynnal. Gallai effeithiau cystadleuaeth annog lleoliadau heb ofod awyr agored i ostwng eu prisiau er mwyn aros yn gystadleuol. Byddai hyn hefyd o fudd i gyplau sy’n priodi neu’n ymrwymo i bartneriaeth sifil.

| **Tybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol Cyfradd Ddisgownt (%)** | Amh. |
|---|---|

At ddibenion yr Asesiad Effaith hwn, tybir na fyddai unrhyw gyfyngiadau sy’n gysylltiedig â Covid ar seremonïau priodas yn cael eu hailgyflwyno ar ôl i Opsiwn 1 ddod i rym (6 Ebrill 2022). Os caiff y rhain eu hailgyflwyno, ac yn dibynnu ar eu natur, gall y mesur gynnig manteision i’r diwydiant lleoliadau ehangach drwy ganiatáu priodasau neu bartneriaethau sifil a fyddai fel arall yn cael eu gohirio neu eu hisraddio i fwrw ymlaen os caniateir cynulliadau yn yr awyr agored.

ASESIAD BUSNES (Opsiwn **1**)

| Effaith uniongyrchol ar y busnes (cyfwerth â blwyddyn) £m: | | | Sgôr ar gyfer y Targed Effaith ar Fusnes (darpariaethau cymwys yn unig) £m: |
|---|---|---|---|
| **Costau:** Amh. | **Buddion:** Amh. | **Net:** Amh. | Amh. |

## Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth Opsiwn Polisi 2

**Disgrifiad:** Diwygio deddfwriaeth gan gynnwys yn bennaf Ddeddf Priodasau 1949 drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored o fewn tir mannau addoli lle mae'n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar hyn o bryd.

**ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

| **Blwyddyn Sail Brisiau** 2021 | **Blwyddyn Sylfaen y Gwerth Presennol** | **Cyfnod Mewn Blynyddoedd** 10 | **Budd Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Isel Amh.** | **Uchel Amh.** | **Amcangyfrif Gorau:** |

| **COSTAU (£m)** | **Cyfanswm Trawsnewid** | | **Cyfartaledd Blynyddol** (heb gynnwys pris trosiannol) | **Cyfanswm Cost** (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| **Isel** | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** |
| **Uchel** | Amh. | | Amh. | **Amh.** |
| **Amcangyfrif Gorau** | Amh. | | Amh. | **Amh.** |

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Nid yw wedi bod yn bosibl mesur unrhyw gostau â gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddwn yn ceisio mireinio ein dealltwriaeth o gostau'r opsiwn drwy gael tystiolaeth o'r ymgynghoriad.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Ar gyfer y cyrff crefyddol hynny fyddai angen cofrestru eu mannau addoli gyda'r Cofrestrydd Cyffredinol er mwyn iddynt gael eu defnyddio i weinyddu priodasau (pob ffydd ac eithrio Anglicanaidd, Iddewig a'r Crynwyr), ac sy'n dymuno gwneud ceisiadau newydd oherwydd y posibilrwydd o gynnal priodasau awyr agored ar dir eu mannau addoli, gall cyrff crefyddol neu berchenogion neu ymddiriedolwyr eraill y mannau addoli hynny wynebu cost fechan o ran amser yn gysylltiedig â'r cais am gofrestru. Byddai'r gost amser hon ond yn codi mewn mannau addoli nad ydynt wedi'u cofrestru'n barod ar gyfer gweinyddu priodasau, a byddent ond yn dymuno cofrestru os byddai Opsiwn 2 yn cael ei weithredu.

| **BUDDION (£m)** | **Cyfanswm Trawsnewid** | | **Cyfartaledd Blynyddol** (heb gynnwys pris trosiannol) | **Cyfanswm y Buddion** (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| **Isel** | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** |
| **Uchel** | Amh. | | Amh. | **Amh.** |
| **Amcangyfrif Gorau** | Amh. | | Amh. | **Amh.** |

**Disgrifiad a graddfa'r buddion allweddol â gwerth ariannol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Nid yw wedi bod yn bosibl mesur unrhyw fuddion â gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddwn yn ceisio mireinio ein dealltwriaeth o fanteision yr opsiwn hwn drwy gael tystiolaeth o'r ymgynghoriad.

**Buddion allweddol eraill heb werth ariannol yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Byddai cyplau sy'n priodi mewn seremoni grefyddol yn elwa o gael dewis ychwanegol o ran lle gellid ei chynnal, cyn belled bod y corff crefyddol yn cynnig seremonïau awyr agored o'r fath. Gallai effeithiau cystadleuaeth annog mannau addoli heb ofod awyr agored i ostwng eu prisiau er mwyn aros yn gystadleuol. Byddai hyn hefyd o fudd i gyplau sy'n priodi.

| **Tybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol** | **Cyfradd** | Amh. |
|---|---|---|

At ddibenion yr Asesiad Effaith hwn, tybir na fyddai unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid ar seremonïau priodas yn cael eu hailgyflwyno ar ôl i Opsiwn 2 ddod i rym. Os caiff y rhain eu hailgyflwyno, ac yn dibynnu ar eu natur, gall y mesur gynnig manteision i gyrff crefyddol a chyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol drwy ganiatáu priodasau a fyddai fel arall yn cael eu gohirio neu eu hisraddio i fwrw ymlaen os caniateir cynulliadau yn yr awyr agored. Ar sail tystiolaeth gyfyngedig, tybir mai bach iawn fyddai graddfa effaith yr opsiwn arfaethedig ar gyrff crefyddol.

**ASESIAD BUSNES (Opsiwn 2)**

| **Effaith uniongyrchol ar y busnes (cyfwerth â** | | | **Sgôr ar gyfer y Targed Effaith ar Fusnes (darpariaethau cymwys yn unig) £m:** |
|---|---|---|---|
| **Costau: Amh.** | **Buddion: Amh.** | **Net: Amh.** | Amh. |

# Sylfaen Dystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb)

## A. Cefndir

### Seremonïau Priodas Sifil a Phartneriaeth Sifil yn yr Awyr Agored

1. Ym mis Mehefin 2021, gosododd y Llywodraeth Offeryn Statudol (OS) a oedd yn diwygio Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 (‘Rheoliadau 2005’) i ganiatáu i seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil ddigwydd yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy, mewn “ardaloedd awyr agored cysylltiedig”.

2. Cyn y diwygiadau hyn, yn unol â sut roedd Rheoliadau 2005 yn diffinio “safleoedd”, roedd yn ofynnol i'r seremonïau gael eu cynnal o fewn strwythur parhaol ansymudol neu ar gwch neu long wedi'i angori'n barhaol a oedd wedi'i gymeradwyo ar gyfer y seremoni, a oedd yn golygu bod gan gyplau lai o hyblygrwydd wrth ddewis ble y cynhaliwyd eu seremonïau.

3. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2021 a byddant yn dod i ben ar ddiwedd 5 Ebrill 2022. Mae’r Llywodraeth nawr yn ymgynghori ar gynigion i ymestyn y polisi i ganiatáu i briodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored barhau am gyfnod amhenodol.

4. Pwrpas yr opsiynau yn yr Asesiad Effaith hwn sy’n ymwneud â phriodasau sifil a phartneriaethau sifil yw parhau i roi mwy o hyblygrwydd i gyplau drwy ganiatáu i bob agwedd ar y seremoni ddigwydd yn yr awyr agored, o fewn ffin y tir y mae’r adeilad adeiledig yn rhan ohono. Bydd hefyd yn parhau i alluogi lleoliadau sy’n cynnig seremonïau sifil i wneud mwy o ddefnydd o’u safle drwy gynnig dewis o seremoni dan do neu yn yr awyr agored i gyplau, fel bod modd pontio’n ddi-dor o’r OS cyfnod penodol cychwynnol i’r OS newydd arfaethedig a fydd mewn grym yn amhenodol, cyn belled ag y bo modd.

5. Mae safleoedd cymeradwy yn cynnwys gwestai, clybiau golff a thai hanesyddol, ac mae gan rai ohonynt ardaloedd y tu allan sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer derbyniadau sy’n dilyn y seremoni gyfreithiol mewn ystafell benodol ar y safle. Byddai’r newidiadau arfaethedig yn caniatáu i gwpl gael seremoni gyfreithiol eu priodas neu bartneriaeth sifil yn yr awyr agored mewn ardaloedd ar dir yr un safle. Yn gyntaf, mae’n rhaid i’r awdurdod perthnasol gadarnhau bod y lleoliad arfaethedig ar gyfer seremoni awyr agored yn ‘weddus ac yn urddasol’ cyn i’r seremoni gael ei chynnal.

6. Nid yw 75% o’r priodasau sy’n cael eu cynnal bob blwyddyn yn rhai crefyddol, ac mae dros 85% ohonynt yn digwydd mewn adeiladau cymeradwy, gyda’r gweddill yn digwydd mewn swyddfeydd cofrestru. Gall partneriaethau sifil ddigwydd naill ai mewn adeilad cymeradwy (a all gynnwys adeilad crefyddol mewn rhai achosion) neu mewn swyddfa gofrestru. Rhagwelir y bydd caniatáu i seremoni gael ei chynnal yn ardaloedd awyr agored cysylltiedig y safle sydd eisoes wedi’i gymeradwyo ar gyfer y seremonïau hyn o fudd i gyplau, a fyddai’n cael mwy o ddewis o ran y lleoliad ar gyfer eu priodas sifil neu bartneriaeth sifil. Byddai hefyd yn cynnig manteision i leoliadau, gan alluogi busnesau i wneud mwy o ddefnydd o’u safleoedd drwy gynnig dewis o seremoni dan do neu yn yr awyr agored i gyplau.

7. Rhoddodd y Llywodraeth y newidiadau hyn ar waith am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2021 i gefnogi adferiad y sector priodasau ar ôl cyfyngiadau pandemig Covid-19 a gafodd effaith ddifrifol ar y sector. Gan fod y tymor brig ar gyfer priodasau’n dechrau ym mis Ebrill ac yn para tan ddiwedd mis Medi, daeth y Llywodraeth i’r casgliad ei bod yn bwysig cyflwyno’r

newidiadau cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi mwy o opsiynau i gyplau a'r sector priodasau o ran lle gellir cynnal seremonïau sifil yn gyfreithiol.

8. Fodd bynnag, ymrwymodd y Llywodraeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar fesurau yn y dyfodol a llunio Asesiad Effaith cyn cyflwyno OS pellach, heb gyfyngiad amser, yn ystod gwanwyn 2022. Mae'r Llywodraeth nawr yn cynnal yr ymgynghoriad hwnnw a'r Asesiad Effaith hwn i'w ategu. Y bwriad yw gosod OS arall a fyddai'n parhau i ganiatáu'r seremonïau sifil hyn yn yr awyr agored, ac a fyddai'n dechrau ar 6 Ebrill 2022, h.y., yn syth ar ôl i'r Offeryn Statudol cyfnod penodol ddod i ben ar 5 Ebrill 2022. Byddai'r OS mewn grym yn amhenodol yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach gan y Llywodraeth yn dilyn yr adroddiad sydd i ddod gan Gomisiwn y Gyfraith, a fydd yn cyflwyno opsiynau ar wahân ar gyfer diwygiadau i foderneiddio cyfraith priodas, gan gynnwys sut y gellid cynnal seremonïau mewn ystod ehangach o leoliadau a all weinyddu priodas, sut y gellid ymgorffori priodasau gan ddyneiddwyr a sefydliadau eraill â chred anghrefyddol, a sut y gellid gwneud darpariaeth ar gyfer defnyddio gweinyddion annibynnol.

9. Gan fod y cynnig hwn yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn ac ar weithdrefnau OS cyffredin, ni all y Llywodraeth warantu y byddai OS pellach mewn grym erbyn 6 Ebrill 2022. Fodd bynnag, dyma gynnig a bwriad y Llywodraeth, a byddai'r Llywodraeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau trosglwyddiad di-dor o'r rheolau presennol i'r rheolau newydd.

**Priodasau Crefyddol yn yr Awyr Agored**

10. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu cynnig dewis a hyblygrwydd tebyg i'r hyn sydd ar gael ar gyfer seremonïau sifil i briodasau crefyddol. Mae'n cynnig gwneud hynny drwy osod Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol a fyddai'n caniatáu i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar dir mannau addoli (ar yr amod bod y cyrff crefyddol perthnasol yn dymuno cynnig priodasau yn y lleoliadau hyn). Byddai'r cynnig hwn yn berthnasol i bob priodas grefyddol, ac eithrio priodasau Iddewig a phriodasau'r Crynwyr, priodasau Anglicanaidd ar awdurdod trwydded arbennig a phriodasau crefyddol eraill ar gyfer y rhai sy'n angheuol wael, lle nad oes unrhyw gyfyngiadau deddfwriaethol ar leoliad y briodas am resymau hanesyddol neu eithriadol.

11. Bwriad y cynnig hwn yw rhoi mwy o hyblygrwydd i gyrff crefyddol a chyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol, lleihau'r rhwystrau i effeithlonrwydd drwy gynyddu dewis, a darparu manteision tebyg i briodasau crefyddol ag y byddai'r OS arfaethedig i seremonïau sifil yn darparu ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau sifil.

12. Byddai'r newidiadau hyn ar sail ganiataol, sy'n golygu na fyddai rheidrwydd ar unrhyw gorff crefyddol i ddarparu seremonïau yn yr awyr agored. Byddai mesurau diogelu presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol yn aros yn eu lle, a mater i gyrff crefyddol fyddai nodi a fyddai angen diwygio eu cyfreithiau neu eu defnydd ac, os felly, beth fyddai eu heffaith ac o fewn pa amserlen.

13. Yn wahanol i'r OS cychwynnol i seremonïau sifil a gynigir uchod, byddai angen newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn caniatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored, a gall hyn gymryd hyd at 24 mis os bydd yn cael ei wneud drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol.

## B. Sail Resymegol ac Amcanion y Polisi

**Rhesymeg**

14. Mae'r seiliau rhesymegol confensiynol dros gael y llywodraeth i ymyrryd yn seiliedig ar ddadleuon ynghylch effeithlonrwydd a thegwch. Efallai y bydd y llywodraeth yn ystyried ymyrryd os bydd methiannau o ran y ffordd y mae marchnadoedd yn gweithredu (ee, monopolïau yn codi gormod ar ddefnyddwyr) neu fethiannau gydag ymyriadau presennol y llywodraeth (ee, gwastraff a gynhyrchir gan reolau wedi'u camgyfeirio). Dylai'r ymyriadau newydd osgoi creu set arall o gostau a gwyrdroadau anghymesur. Gall y llywodraeth hefyd ymyrryd am resymau ecwiti (tegwch) ac ailddosbarthu (ee, ailddyrannu nwyddau a gwasanaethau i grwpiau mwy difreintiedig mewn cymdeithas).

15. Y brif sail resymegol y tu ôl i'r opsiynau a asesir yn yr Asesiad Effaith hwn yw hyrwyddo effeithlonrwydd drwy ehangu'r dewis. Yn absenoldeb yr opsiynau a ffefrir gan y Llywodraeth, ni fyddai gan unigolion sy'n dymuno cael priodas sifil neu bartneriaeth sifil yr opsiwn i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil yn yr awyr agored o 6 Ebrill 2022 ymlaen. Byddai'r opsiynau arfaethedig yn sicrhau bod y dewis hwn yn bodoli am gyfnod amhenodol ar gyfer y rheini sy'n dymuno cael seremoni yn yr awyr agored.

16. Ar hyn o bryd, nid oes cyfle i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol yn ôl crefyddau nad ydynt ar hyn o bryd yn caniatáu priodasau yn yr awyr agored i briodi yn yr awyr agored o gwbl. Byddai'r opsiynau yn yr Asesiad Effaith hwn felly'n hyrwyddo tegwch gan y byddent hefyd yn sicrhau dewis fel yr hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dymuno cael priodasau sifil a phartneriaethau sifil i'r rhai sy'n dymuno cael priodasau crefyddol yn y crefyddau hynny nad ydynt yn caniatáu priodasau yn yr awyr agored ar hyn o bryd, os bydd y crefyddau hynny'n dewis cynnig y dewis hwn.

17. Byddai'r cynigion yn lleihau unrhyw feichiau gweinyddol ychwanegol ar leoliadau cymeradwy, awdurdodau cofrestru lleol neu gyrff crefyddol. Byddai'r beichiau gweinyddol ychwanegol ar safleoedd cymeradwy yn cael eu lleihau drwy gymeradwyo mannau awyr agored yn awtomatig ar gyfer safleoedd cymeradwy presennol (yn achos priodasau/partneriaethau sifil) neu ar gyfer mannau addoli lle mae'n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar hyn o bryd. Gan na fyddai'r dewis ychwanegol hwn yn gosod unrhyw feichiau newydd sylweddol, mae'r cynigion yn yr Asesiad Effaith hwn yn cynnig gwelliannau o ran effeithlonrwydd.

**Amcanion Polisi**

18. Dyma'r amcanion polisi cysylltiedig:

- I ddileu'r cyfyngiadau deddfwriaethol sy'n mynnu bod y rhan fwyaf o seremonïau priodas a partneriaeth sifil yn cael eu cynnal dan do, gan felly hybu effeithlonrwydd yn y sector drwy alluogi cyplau i gael mwy o ddewis o ran lleoliad eu seremonïau, ac i gyrff crefyddol gael mwy o hyblygrwydd o ran lleoliad eu seremonïau os ydynt yn dewis cynnig hynny.
- Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored yn parhau ar sail fwy parhaol, ac yn cael ei hymestyn i briodasau crefyddol, er mwyn galluogi cyplau i gael mwy o ddewis mewn perthynas â'u seremonïau. Byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd heb gynyddu'r baich gweinyddol ar leoliadau yn sylweddol.
- Cymaint â phosibl, i ddarparu cyfnod pontio di-dor o ddiwedd y rheoliadau diwygio sydd â chyfyngiad amser i'r rheoliadau diwygio newydd heb derfyn amser, gan sicrhau y gall priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored barhau ar ôl i'r OS presennol ddod i ben a sicrhau nad oes bwlch o ran cyfreithlondeb priodasau sifil yn yr awyr agored a phartneriaethau sifil ar safleoedd cymeradwy.

19. Mae diwygio o’r fath, er ei fod yn gulach ei gwmpas na chaniatáu i seremoniau ddigwydd mewn unrhyw ardal awyr agored, gellid ei weld fel cam posibl tuag at ddiwygio cynhwysfawr a chadarn diweddarach drwy waith Comisiwn y Gyfraith.

## C. Grwpiau Rhanddeiliaid, Sefydliadau a Sectorau yr effeithir arnynt

20. Byddai’r opsiynau a asesir yn yr Asesiad Effaith hwn yn effeithio’n uniongyrchol ar y grwpiau canlynol:
    - Cyplau sy'n priodi mewn seremoni sifil neu'n ymrwymo i bartneriaeth sifil.
    - Cyplau’n priodi mewn seremoni grefyddol.
    - Cofrestryddion ac awdurdodau lleol.
    - Y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO), sy’n cadw cofnodion o briodasau a phartneriaethau sifil yng Nghymru a Lloegr ac a fyddai’n cynnal ymarfer casglu data i fireinio ein dealltwriaeth o faint sy’n manteisio ar yr hawl i gynnal priodasau sifil a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored.
    - Lleoliadau gyda safleoedd addas yn yr awyr agored, yn ogystal â’r rheini heb safleoedd addas yn yr awyr agored, a’r diwydiant lleoliadau priodasau a phartneriaethau sifil ehangach.
    - Cyrff crefyddol a pherchnogion neu ymddiriedolwyr mannau addoli sy’n dymuno cynnig priodasau yn yr awyr agored dan gyfraith Cymru a Lloegr.

## D. Disgrifiad o’r Opsiynau a Ystyriwyd

21. Er mwyn cyflawni’r amcanion polisi hyn, mae’r opsiynau canlynol yn cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith hwn:
    - **Opsiwn 0: Gwneud dim (llinell sylfaen). Gadael i’r OS presennol ddod i ben ar 5 Ebrill 2022.**
    - **Opsiwn 1: Diwygio Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 (‘Rheoliadau 2005’) drwy Offeryn Statudol newydd a fyddai’n dod i rym ar unwaith a heb gyfyngiad amser**
    - **Opsiwn 2: Diwygio deddfwriaeth gan gynnwys Deddf Priodasau 1949 yn bennaf drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored o fewn tiroedd mannau addoli lle mae’n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar hyn o bryd**

22. Opsiwn 1 a 2 yw’r opsiynau sy’n cael ei ffafrio gan mai nhw sy’n bodloni’r amcanion polisi a nodir uchod orau.

**Opsiwn 0 – Gwneud dim: Gadael i’r OS a’r diwygiadau presennol ddod i ben ar 5 Ebrill 2022.**

23. O dan yr opsiwn hwn, byddai’r OS presennol yn dod i ben ar ddiwedd 5 Ebrill 2022, heb gynnig unrhyw ddarpariaeth o unrhyw fath yn ei le, ac ni fyddai unrhyw orchymyn diwygio deddfwriaethol yn cael ei osod i ddarparu ar gyfer priodasau crefyddol yn yr awyr agored. Byddai hyn felly’n dileu’r holl ddarpariaethau ar gyfer seremonïau priodas a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored fel y nodir yn yr OS presennol, heb unrhyw ddewis arall addas neu gymaradwy ar gyfer cyplau sy’n gobeithio cael seremoni yn yr awyr agored, a heb unrhyw

ddarpariaeth ar gyfer priodasau crefyddol yn yr awyr agored, hyd nes y bydd y Llywodraeth yn gwneud unrhyw benderfyniadau gan ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

24. Gan fod y tymor brig ar gyfer priodasau yn dechrau ym mis Ebrill ac yn rhedeg tan ddiwedd mis Medi, ni fyddai unrhyw gyplau a oedd yn dymuno cael seremoni sifil awyr agored ar safle cymeradwyo yn ystod haf 2022 yn gallu gwneud hynny pe bai'r OS presennol yn dod i ben heb gael ei ddisodli. Felly, byddai'r hyblygrwydd ychwanegol a gynigir gan yr OS presennol yn cael ei golli, a byddai'r opsiynau o leoliadau posibl ar gyfer seremonïau'n cael eu cyfyngu unwaith eto. Ni fyddai'r dewis a'r hyblygrwydd ychwanegol y byddai gorchymyn diwygio deddfwriaethol yn ei gynnig i gyrff crefyddol a chyplau sy'n dymuno cael seremonïau crefyddol yn yr awyr agored erbyn tua 2023 ar gael ychwaith.

**Opsiwn 1: Diwygio Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 ('Rheoliadau 2005') drwy Offeryn Statudol newydd a fyddai'n dod i rym ar unwaith a heb gyfyngiad amser**

25. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gwneud diwygiadau i Reoliadau 2005, yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, a fyddai'n parhau â'r ddarpariaeth a wnaed ar 1 Gorffennaf 2021 ar gyfer seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored. Fodd bynnag, byddai'r OS hwn am gyfnod amhenodol.

26. Byddai'r diwygiadau hyn yn gymwys i seremonïau priodas sifil a ffurfio partneriaeth sifil (gan gynnwys ffurfio partneriaeth sifil mewn safle crefyddol lle mae'r safle hwnnw'n gymeradwy at y diben penodol hwnnw). Byddai'r opsiwn hwn felly'n galluogi'r polisi cyfredol i barhau ac felly i seremonïau yn yr awyr agored gael eu caniatáu am gyfnod amhenodol wrth aros am ganlyniadau adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac argymhellion polisi dilynol.

27. Byddai'r diffiniad o "safle" yn cael ei ddiwygio i gynnwys y "safle adeiledig" ynghyd ag unrhyw "fannau awyr agored cysylltiedig". Caiff safleoedd adeiledig eu diffinio fel "strwythur parhaol ansymudol sy'n cynnwys o leiaf un ystafell, neu unrhyw gwch neu long sydd wedi'i angori'n barhaol" a byddai ardaloedd awyr agored cysylltiedig yn cael eu diffinio fel "unrhyw ardaloedd o fewn ffin y tir y mae'r safle adeiledig yn rhan ohono, nad ydynt dan do ac y gellir eu defnyddio ar y cyd â'r safle adeiledig". Bwriad hyn yw cofnodi lleoliadau awyr agored o fewn ffin yr un eiddo â'r safle cymeradwy

28. Ar ben hynny, mae effeithiau cyfyngiadau Covid-19 ar y diwydiant priodasau wedi bod yn ddifrifol. Bu'n rhaid i filoedd o gyplau ohirio neu ganslo eu priodas neu bartneriaeth sifil arfaethedig yn 2020 ac yn 2021. Byddai pontio'n ddi-dor os yw'n bosibl rhwng yr offerynnau statudol presennol a'r rhai arfaethedig felly'n parhau i ddarparu'r opsiwn awyr agored i gyplau sy'n aildrefnu eu seremonïau.

29. Felly, mae Opsiwn 1 yn un o'r opsiynau sy'n cael ei argymell gan y byddai, gymaint â phosibl, yn pontio'n ddi-dor rhwng yr OS presennol sydd â chyfyngiad amser a'r diwygiadau newydd, amhenodol, gan osgoi unrhyw darfu posibl y byddai toriad mewn darpariaethau deddfwriaethol yn ei achosi i briodasau a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored. Ar ben hynny, byddai'n osgoi unrhyw ddryswch posibl ynghylch cyfreithlondeb seremonïau sifil yn yr awyr agored.

30. Byddai'r rheoliadau hyn yn ymestyn i Gymru a Lloegr. Mae cyfraith priodasau a phartneriaethau sifil yn fater a gedwir yn ôl yng nghyswllt Cymru. Mae cyfraith priodas a phartneriaeth sifil wedi'i datganoli i Ogledd Iwerddon a'r Alban.

**Opsiwn 2: Ymestyn y ddarpariaeth o seremonïau yn yr awyr agored i briodasau crefyddol drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol ar wahân**

31. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu darparu ar gyfer seremonïau yn yr awyr agored i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i gyplau sy'n dymuno cael priodasau crefyddol ac i gyrff crefyddol, gan y byddai Opsiwn 1 yn darparu ar gyfer cyplau sy'n dymuno cael seremonïau sifil ac adeiladau cymeradwy sy'n eu cynnal.

32. Mae'r Llywodraeth yn cynnig darparu ar gyfer priodasau crefyddol yn yr awyr agored yn gyffredinol drwy fabwysiadu dull tebyg i'r un a gynigiwyd ar gyfer safleoedd cymeradwy. Hynny yw, ystyrir bod mannau addoli yn cynnwys yn fras yr ardaloedd awyr agored o fewn ffiniau eiddo'r ystafelloedd neu'r adeiladau y mae'n rhaid gweinyddu priodasau ynddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaethau yn y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli priodasau crefyddol, a'r gwahaniaethau pellach yn y fframweithiau ar gyfer gwahanol grefyddau, mae'r Llywodraeth yn gwneud y cynnig a ganlyn:

- Yn gyntaf, byddai'n cael ei hystyried yn awtomatig bod eglwysi Anglicanaidd a chapeli'n cynnwys yr ardaloedd awyr agored o fewn ffin yr eiddo.

- Ar gyfer crefyddau lle mae'n rhaid cofrestru mannau addoli ardystiedig o dan Ddeddf Priodasau 1949 er mwyn i briodasau gael eu gweinyddu, byddai'n cael ei hystyried yn awtomatig bod y cofrestriadau'n cynnwys yr ardaloedd awyr agored o fewn ffin yr eiddo.

33. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod angen diwygio deddfwriaeth sylfaenol, ac oherwydd yr amserlenni hirach sy'n gysylltiedig â gorchymyn diwygio deddfwriaethol, ni fyddai darpariaethau sy'n caniatáu seremonïau crefyddol yn yr awyr agored yn gallu dod i rym ym mis Ebrill 2022 gyda'r OS arfaethedig ar gyfer seremonïau sifil, ond yn hytrach byddai'n dod i rym yn 2023 ar y cynharaf.

34. Felly, mae Opsiwn 2 hefyd yn cael ei argymell ar y cyd ag opsiwn 1 gan mae'r rhain, gyda'i gilydd, sy'n cwrdd orau â'r amcanion polisi a nodwyd yn gynharach.

**Opsiynau Eraill a ystyriwyd**

35. Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig ymestyn seremonïau yn yr awyr agored i briodasau a seremonïau partneriaeth sifil a gynhelir mewn swyddfeydd cofrestru, nac mewn lleoliadau eraill fel preswylfeydd pobl 'sy'n gaeth i'r tŷ' neu'n 'cael eu cadw'n gaeth'. Caniateir y lleoliadau eithriadol hyn mewn amgylchiadau lle nad yw unigolion yn gallu mynychu seremonïau mewn lleoliadau sy'n ofynnol fel arall oherwydd salwch, anabledd neu eu bod yn cael eu cadw mewn carchar neu ysbyty diogel. Mae'r Llywodraeth yn cynnig peidio â gwneud hynny gan nad yw'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth fod galw am seremonïau yn yr awyr agored ar gyfer y lleoliadau eithriadol hyn. Yn hytrach, bydd y Llywodraeth yn ystyried y mater hwn fel rhan o'i hystyriaeth o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith priodas yn sylfaenol.

36. Nid yw'r Llywodraeth ychwaith yn cynnig ymestyn seremonïau awyr agored i ystod ehangach o leoliadau awyr agored h.y. i ardaloedd nad ydynt yn gysylltiedig ag adeiladau cymeradwy neu fannau addoli. I wneud hyn, byddai angen diwygio'r gyfraith yn fwy sylfaenol o ran ble y dylai bod modd cynnal seremonïau priodas a phartneriaethau sifil, gan gynnwys torri'r cysylltiad presennol â'r gofynion ar gyfer lleoli priodasau sy'n llifo o adeiladau, yn ogystal ag ystyried gofynion cymeradwyo a rheoleiddio newydd cynhwysfawr ar gyfer mannau awyr

agored. Yn hytrach, bydd y Llywodraeth yn ystyried y diwygiadau ehangach hyn yn ofalus ar ôl i Gomisiwn y Gyfraith ddarparu ei argymhellion.

## E. Dadansoddiad o'r Costau a'r Manteision

37. Mae'r Asesiad Effaith hwn yn dilyn y gweithdrefnau a'r meini prawf a nodir yng Nghanllawiau'r Asesiad Effaith ac mae'n gyson â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

38. Mae'r Asesiad Effaith hwn yn nodi'r effeithiau ar unigolion, grwpiau a busnesau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r nod o ddeall beth fyddai effaith gyffredinol gweithredu'r opsiynau a ystyriwyd ar gymdeithas. Fel arfer, mae Asesiadau Effaith yn rhoi pwyslais cryf ar brisio'r costau a'r manteision mewn termau ariannol (gan gynnwys amcangyfrif gwerth nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn cael eu masnachu). Fodd bynnag, mae agweddau pwysig na ellir rhoi gwerth synhwyrol arnynt a allai gynnwys sut mae'r polisi'n effeithio'n wahanol ar grwpiau penodol o gymdeithas neu newidiadau mewn ecwiti a thegwch.

39. Mae costau a manteision pob opsiwn fel arfer yn cael eu cymharu â'r opsiwn 'gwneud dim' neu 'gwrthffeithiol', i ddangos effeithiau posibl diwygio. Yn yr achos hwn, yr opsiwn 'gwneud dim' yw gadael i'r OS a osodwyd ym mis Mehefin 2021 ddod i ben ar 5 Ebrill 2022, a fyddai'n atal priodasau yn yr awyr agored a phartneriaethau sifil rhag parhau i gael eu caniatáu ar safleoedd cymeradwy. Byddai hefyd yn golygu na fyddai unrhyw newid deddfwriaethol i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored ar gyfer crefyddau nad ydynt eisoes yn caniatáu seremonïau o'r fath. Wrth gymharu'r sefyllfa wrthffeithiol â'i hun, mae ei chostau a'i manteision yn sero, fel ei Gwerth Cyfredol Net.

40. Dim ond effeithiau heb werth ariannol sydd wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith hwn. Nid yw wedi bod yn bosibl mesur gwerth ariannol effeithiau'r opsiwn sy'n cael ei ystyried. Y rheswm a hyn yw mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth bod safleoedd cymeradwy yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio ardaloedd awyr agored cysylltiedig o dan yr OS a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2021. Mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu bod y nifer sydd wedi mynd ati i wneud hynny yn isel. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn am ddata ychwanegol am hyn ochr yn ochr â'r cyfnod ymgynghori. Gallai hyn wella ein dealltwriaeth o raddfa effaith y darpariaethau o dan Opsiwn 1 ar gyfer Asesiad Effaith Terfynol, petai'r opsiwn 1 arfaethedig yn cael ei ffafrio. Yn ail, yn achos Opsiwn 2, nid yw'n glir pa gyfran o gyrff crefyddol (a pha gyfran o fannau addoli unigol o fewn y crefyddau hynny) fyddai'n dymuno caniatáu priodasau yn yr awyr agored.

**<u>Opsiwn 1: Diwygio'r Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd Cymeradwy) 2005 ('Rheoliadau 2005') drwy Offeryn Statudol newydd na fyddai'n cynnwys cyfyngiad amser</u>**

### Costau Opsiwn 1

*Lleoliadau gyda mannau addas yn yr awyr agored a'r diwydiant lleoliadau priodasau/partneriaethau sifil ehangach*

<u>Costau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo safleoedd</u>

41. Dylid nodi na fyddai'n rhaid i unrhyw leoliad gynnig seremonïau yn yr awyr agored o ganlyniad i Ddewis 1. O'r herwydd, ni fyddai Opsiwn 1 yn golygu bod lleoliadau'n ysgwyddo

costau newydd yn awtomatig. Felly, dim ond i leoliadau sy'n dewis cynnig seremonïau yn yr awyr agored y mae'r costau a ddisgrifir isod yn berthnasol.

42. Byddai lleoliadau sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer defnyddio ystafell(oedd) dan do yn wynebu cost amser o roi gwybod i'w hawdurdod lleol am eu bwriad i ddefnyddio mannau awyr agored o fewn yr un ffiniau â'r tir y mae'r safle adeiledig yn rhan ohono. Ar ben hynny, gall lleoliadau wynebu cost amser sy'n gysylltiedig ag arolygu a chadarnhau bod y mannau awyr agored cysylltiedig yn 'weddus ac yn urddasol' cyn unrhyw seremoni.

43. Byddai lleoliadau sy'n gwneud ceisiadau newydd am gymeradwyaeth, neu'r rheini sydd i fod i adnewyddu eu cymeradwyaeth, yn wynebu cost amser o ddatblygu cynllun o ffiniau eu safle i gyd-fynd â'u cais i'w hawdurdod lleol[7]. Ar wahân i hyn, byddai eu cais am gymeradwyaeth yn dilyn yr un broses ag y byddai ar gyfer lle dan do, felly bydd cost ychwanegol o ran amser ar gyfer arolygu'r safle awyr agored ochr yn ochr â'r man dan do.

44. Gallai'r opsiwn hwn greu pwysau cystadleuol ychwanegol i gwmnïau yn y diwydiant lleoliadau priodasau a partneriaethau sifil. Efallai y bydd lleoliadau sy'n gallu cynnal seremonïau awyr agored yn cael mantais gystadleuol dros leoliadau na allai gynnig y dewis hwn. Er enghraifft, efallai y bydd lleoliad sydd â digon o le yn yr awyr agored yn gallu cynnal gwledd a seremoni briodas. Gallai hyn olygu bod lleoliadau sydd â gofod awyr agored sy'n bodoli'n barod, neu sydd â'r capasiti i greu gofod o'r fath, yn cael mwy o refeniw o'u cymharu â lleoliadau nad ydynt yn gallu gwneud hynny.

45. Nid ydym yn dehongli y bydd yr effeithiau hyn ar gystadleuaeth yn arwain at fantais neu gost net i'r diwydiant lleoliadau'n ehangach, fodd bynnag, oherwydd rydym yn ddehongli'r canlyniad disgwyliedig fel trosglwyddiad refeniw o leoliadau llai cystadleuol i rai mwy cystadleuol. Nid oes disgwyl i'r mesur gynyddu'r galw am briodasau neu bartneriaethau sifil mewn modd ystyrlon. Felly, ni fyddem yn disgwyl i'r diwydiant lleoliadau priodas ehangach wynebu cost na mantais ystyrlon o ganlyniad i'r mesur hwn.

<u>Costau sy'n gysylltiedig â threfnu cynlluniau wrth gefn mewn tywydd garw</u>

46. O dan Opsiwn 1, byddai angen i leoliadau gynnig cynlluniau wrth gefn ar gyfer seremonïau yn ystod amodau tywydd anffafriol. Gan y byddai angen i leoliadau gael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer mannau dan do ac yn yr awyr agored, byddai angen i leoliadau sicrhau bod eu cyfleusterau dan do ar gael fel lle wrth gefn. Felly, efallai y bydd lleoliadau'n wynebu rhywfaint o gostau ymlaen llaw, er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod seddi ychwanegol wrth gefn ar gael.

47. Gan y byddai'r costau hyn yn deillio o benderfyniad masnachol i gynnig priodasau neu seremonïau partneriaeth sifil yn yr awyr agored, yr unig leoliadau a fyddai'n wynebu'r costau hyn fyddai'r rheini y mae eu cost o drefnu cynlluniau wrth gefn yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd yn eu hincwm o ganlyniad i gynnig amrywiaeth ehangach o briodasau neu seremonïau partneriaeth sifil.

*Cofrestryddion ac Awdurdodau Lleol*

48. Byddai Cofrestryddion a gyflogir gan awdurdodau lleol yn wynebu cost fechan am yr amser ychwanegol i asesu cynlluniau ffiniau safleoedd ar gyfer lleoliadau sy'n gwneud ceisiadau newydd.

---

[7] Ni fydd angen i leoliadau nodi ar y cynllun ym mha leoliadau penodol yn yr ardaloedd awyr agored cysylltiedig y byddai seremonïau'n cael eu cynnal

**Manteision Opsiwn 1**

*Cyplau sy'n priodi mewn seremoni sifil neu'n ffurfio partneriaeth sifil.*

49. Efallai y byddai'n well gan rai cyplau sy'n dymuno priodi drwy seremoni sifil neu ymrwymo i bartneriaeth sifil gynnal eu seremoni yn yr awyr agored. Byddai'r darpariaethau o dan Opsiwn 1 yn caniatáu i hyn barhau i ddigwydd mewn lleoliadau gyda mannau awyr agored cymeradwy o 6 Ebrill 2022 ymlaen. Felly, byddai cyplau'n parhau i gael mwy o ddewis a hyblygrwydd o ran dathlu seremonïau sifil.

50. Gallai effeithiau'r gystadleuaeth a amlinellir ym mharagraff 44 annog lleoliadau heb fannau awyr agored i ostwng eu prisiau er mwyn aros yn gystadleuol. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd cyplau sy'n priodi mewn seremoni sifil neu'n ffurfio partneriaeth sifil nad ydynt yn bwriadu priodi yn yr awyr agored yn gorfod talu prisiau is o ganlyniad i Opsiwn 1.

**Opsiwn 2 - Diwygio deddfwriaeth gan gynnwys Deddf Priodasau 1949 yn bennaf drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol i ganiatáu priodasau crefyddol yn yr awyr agored o fewn tir mannau addoli lle mae'n rhaid i briodasau crefyddol gael eu cynnal ar hyn o bryd.**

**Costau Opsiwn 2**

*Cyrff crefyddol a pherchnogion neu ymddiriedolwyr mannau addoli sy'n dymuno cynnig priodasau yn yr awyr agored*

51. Dim ond mannau addoli sy'n dymuno dechrau gweinyddu priodasau o ganlyniad i Opsiwn 2 fyddai'n wynebu costau. Ni fyddai Opsiwn 2 yn creu cost ychwanegol ar gyfer mannau addoli a fyddai wedi bwriadu gweinyddu priodasau yn absenoldeb Opsiwn 2.

52. Costau isel fyddem yn eu rhagweld i gyrff crefyddol yn gysylltiedig â phenderfynu cynnig priodasau ar dir awyr agored eu mannau addoli. Y rheswm am hyn yw na fyddai'r opsiwn arfaethedig yn creu unrhyw ofynion newydd i gyrff crefyddol i geisio cymeradwyaeth. Fel gyda'r fframwaith deddfwriaethol presennol, byddai'r llywodraeth yn ystyried mai mater i'r cyrff crefyddol yw penderfynu a ddylid cynnig priodasau yn yr awyr agored yn ôl eu ffydd ar dir eu safleoedd crefyddol, ac o dan ba amgylchiadau y byddent yn gwneud hynny. Ni fu modd mesur y costau hyn.

53. Ar gyfer priodasau Anglicanaidd, byddai'n cael ei hystyried yn awtomatig bod eglwysi a chapeli a awdurdodir gan drwydded esgob yr esgobaeth i weinyddu priodasau yn cynnwys yr ardal awyr agored sydd o fewn ffin yr eiddo. Byddai capeli nad ydynt wedi'u hawdurdodi ar hyn o bryd i weinyddu priodasau yn cael eu hawdurdodi drwy drwydded yr esgob, ac mae gweithdrefnau i roi gwybod i'r Cofrestrydd Cyffredinol am y capeli hyn. Ond, ni fyddai angen rhoi gwybod i'r Cofrestrydd Cyffredinol am fwriad i ddefnyddio mannau awyr agored y capeli ar gyfer priodas.

54. Ar gyfer y capeli hynny nad ydynt wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd, byddai cost amser fechan yn codi gan y byddai angen i esgob yr esgobaeth hysbysu'r Cofrestrydd Cyffredinol os rhoddir trwydded newydd i weinyddu priodasau a chofrestru materion penodol yng nghofrestr yr esgobaeth.

55. Ar gyfer crefyddau lle mae'n rhaid cofrestru mannau addoli dan Ddeddf Priodasau 1949 er mwyn gallu gweinyddu priodasau yn y lleoliadau hynny (h.y. pob ffydd ac eithrio'r ffydd Anglicanaidd, y ffydd Iddewig a'r Crynwr), byddai hefyd yn cael ei hystyried yn awtomatig bod unrhyw gofrestriad newydd i weinyddu priodasau mewn man addoli yn cynnwys y tir awyr agored o fewn ffin eiddo'r man addoli. Felly, dim ond cost amser fechan (i gofrestru)

fyddai'n rhaid i gyrff crefyddol neu berchnogion neu ymddiriedolwyr eraill y mannau addoli hyn eu talu yn yr achosion hyn. Ar gyfer mannau addoli sydd eisoes wedi'u cofrestru i weinyddu priodasau, ni fyddai'n rhaid iddynt dalu unrhyw gostau o gwbl.

56. Efallai y bydd angen i rai cyrff crefyddol sy'n penderfynu cynnig priodasau yn yr awyr agored newid eu cyfreithiau neu eu harferion eu hunain i ganiatáu priodasau yn yr awyr agored. Gall hyn hefyd olygu cost amser i'r cyrff hyn. Ceisir rhagor o dystiolaeth am y costau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad.

57. Mae'n bosibl y byddai rhai cyplau a fyddai fel arall yn priodi drwy ddefnyddio seremoni sifil (oherwydd bod eu dymuniad i briodi yn yr awyr agored yn drech na'u dewis i briodi drwy ddefod grefyddol) yn dewis priodi mewn seremoni grefyddol dan Opsiwn 2. Yn yr achos hwn, byddai rhai priodasau a fyddai fel arall wedi cynhyrchu refeniw ar gyfer lleoliadau priodas sifil nawr yn cynhyrchu refeniw ar gyfer cyrff crefyddol. Byddai hyn yn arwain at drosglwyddo o leoliadau priodas sifil i gyrff crefyddol, ond ni fyddai'n effeithio ar les yn gyffredinol yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi[8] (gweler tudalen 39). Oherwydd y lefel uchel o ansicrwydd, ni fu'n bosibl modelu graddfa'r trosglwyddiad hwn.

<u>Costau sy'n gysylltiedig â threfnu cynlluniau wrth gefn mewn tywydd garw</u>

58. O dan Opsiwn 2, mae'n debygol y byddai mannau addoli yn dymuno cynnig cynlluniau wrth gefn ar gyfer seremonïau pan fo'r tywydd yn anffafriol. Mae'n debyg y byddai mannau addoli yn dymuno darparu cyfleusterau eraill dan do fel lle wrth gefn. Felly, efallai y bydd mannau addoli'n wynebu rhywfaint o gostau ymlaen llaw, er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod seddi ychwanegol wrth gefn a/neu orchuddion awyr agored ar gael.

59. Gan y byddai'r costau hyn yn deillio o benderfyniad ymlaen llaw i gynnig priodasau yn yr awyr agored, yr unig fannau addoli a fyddai'n wynebu'r costau hyn fyddai'r rheini lle mae'r gost o drefnu cynlluniau wrth gefn o'r fath yn fwy na'r incwm ychwanegol o ganlyniad i gynnig amrywiaeth ehangach o briodasau. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i grwpiau crefyddol addasu'r ffioedd maent yn eu codi ar gyfer priodasau i adlewyrchu costau cynlluniau wrth gefn o'r fath.

**Manteision Opsiwn 2**

*Cyplau'n priodi mewn seremoni grefyddol*

60. Efallai y byddai'n well gan rai cyplau sy'n dymuno priodi drwy seremoni grefyddol i'w seremoni gael ei chynnal yn yr awyr agored. Byddai'r darpariaethau dan Opsiwn 2 yn caniatáu i hyn ddigwydd ar gyfer pob ffydd, ar yr amod bod y ddwy ffydd grefyddol yn caniatáu hynny. Felly, byddai Opsiwn 2 yn creu mwy o ddewis a hyblygrwydd i gyplau sy'n dymuno dathlu priodas grefyddol.

61. Gallai'r cynnydd yn y gystadleuaeth a allai godi yn sgil hyn annog mannau addoli heb fannau awyr agored i ostwng eu prisiau er mwyn aros yn gystadleuol. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd cyplau sy'n priodi mewn seremoni grefyddol nad ydynt yn bwriadu priodi yn yr awyr agored yn gorfod talu prisiau is o ganlyniad i Opsiwn 2.

## F. Risgiau a Thybiaethau

[8] Y Llyfr Gwyrdd (publishing.service.gov.uk)

62. Mae'r dadansoddiad uchod yn seiliedig ar amryw o dybiaethau. Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r prif dybiaethau a wnaed mewn perthynas â phob opsiwn a'r prif risgiau a allai godi pe na baent yn gywir.

**Opsiwn 1 – Priodasau Sifil/Partneriaethau Sifil yn yr awyr agored**

*Nifer y lleoliadau a'r seremonïau priodas sifil/partneriaeth sifil yr effeithir arnynt*

63. Mae tystiolaeth yn nodi bod safleoedd cymeradwy yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio ardaloedd awyr agored cysylltiedig o dan ddarpariaethau'r OS dros dro a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2021 yn gyfyngedig. Felly, rydym yn tybio y byddai'r mesur o dan Opsiwn 1 yn cael effeithiau cyfyngedig yn yr un modd os daw i rym ar 6 Ebrill 2022. O'r herwydd, rhagwelir y byddai graddfa unrhyw gostau neu fanteision cysylltiedig ag Opsiwn 1 yn fach.

64. Fodd bynnag, gofynnir am dystiolaeth newydd drwy'r ymgynghoriad ac ymarfer casglu data sydd i'w gynnal gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i fireinio ein dealltwriaeth o raddfa'r defnydd o'r mesurau blaenorol hynny gan safleoedd cymeradwy. Os daw tystiolaeth i'r amlwg sy'n awgrymu costau neu fendithion i leoliadau neu'r diwydiant priodasau neu bartneriaethau sifil ehangach sy'n fwy na throthwy'r Gost Net Uniongyrchol Gyfatebol Flynyddol i Fusnesau (ENDCB) o £5m de minimis, byddem yn ceisio ymgynghori â'r RPC i gael barn.

*Effaith cyfyngiadau Covid ar bresenoldeb mewn seremonïau*

65. Ym mis Rhagfyr 2021, nid oes cyfyngiadau ar bresenoldeb mewn priodasau yng Nghymru[9] a Lloegr[10] yng nghyswllt Covid. At ddibenion yr Asesiad Effaith hwn, tybir na fyddai cyfyngiadau'n cael eu hailgyflwyno o fis Ebrill 2022 ymlaen. Mae hon yn dybiaeth sydd wedi'i gwneud at ddibenion dadansoddi effaith ac ni ddylid ei dehongli fel arwydd o bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol.

66. Os caiff cyfyngiadau eu hailgyflwyno, mae'n bosibl y byddai Opsiwn 1 yn cael effaith sylweddol ar nifer y seremonïau priodas neu bartneriaeth sifil sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr o'i gymharu ag Opsiwn 0. Gallai hyn ddigwydd os bydd cyfyngiadau'r llywodraeth yn caniatáu mwy o bresenoldeb mewn seremonïau a gynhelir yn yr awyr agored, tra'n cyfyngu ar, neu'n atal, presenoldeb mewn seremonïau dan do na fyddai efallai'n digwydd o ganlyniad.

67. Felly, os *caiff* cyfyngiadau Covid eu hailgyflwyno ar seremonïau priodas a phartneriaeth sifil, disgwylir y gallai'r darpariaethau o dan Opsiwn 1 arwain at fudd net i'r diwydiant lleoliadau ehangach o'i gymharu ag Opsiwn 0, gan y byddai'n caniatáu i seremonïau a fyddai fel arall yn cael eu gohirio fynd rhagddynt.

**Opsiwn 2 – Seremonïau Crefyddol**

*Nifer y mannau addoli a seremonïau priodas crefyddol yr effeithir arnynt*

68. Ar hyn o bryd, nid oes data ar gael i lywio amcangyfrif o nifer y mannau addoli a fyddai'n dymuno cyflwyno priodasau yn yr awyr agored o ganlyniad i roi Opsiwn 2 ar waith. O ganlyniad, ni fu'n bosibl mesur y costau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn er y rhagwelir mai bach fyddai graddfa unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn. Er enghraifft, efallai y

[9] Coronafeirws (COVID-19): Seremonïau, gwleddau a dathliadau priodas a phartneriaeth sifil – GOV.UK (www.gov.uk)

[10] Lefel rhybudd 0: canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau | LLYW.CYMRU

bydd costau amser yn gysylltiedig â grwpiau crefyddol sydd angen newid eu cyfreithiau eu hunain i ganiatáu priodasau yn yr awyr agored. Byddai rhagor o dystiolaeth yn cael ei chasglu am unrhyw gostau amser sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraith grefyddol a fyddai'n codi yn sgil dewis corff crefyddol i ganiatáu priodasau yn yr awyr agored.

69. Os daw tystiolaeth i'r amlwg sy'n awgrymu effeithiau ar fannau addoli sy'n fwy na throthwy'r Gost Net Uniongyrchol Gyfatebol Flynyddol i Fusnesau (ENDCB) o £5m de minimis, byddem yn ceisio ymgynghori â'r RPC i gael barn.

*Effaith cyfyngiadau Covid ar bresenoldeb mewn seremonïau*

70. Ym mis Rhagfyr 2021, nid oes cyfyngiadau ar bresenoldeb mewn priodasau yng Nghymru[11] a Lloegr[12] yng nghyswllt Covid. At ddibenion yr Asesiad Effaith hwn, tybir na fyddai cyfyngiadau'n cael eu hailgyflwyno. Mae hon yn dybiaeth sydd wedi'i gwneud at ddibenion dadansoddi effaith ac ni ddylid ei dehongli fel arwydd o bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol. O ganlyniad, tybir, yn absenoldeb unrhyw gyfyngiadau newydd, na fyddai Opsiwn 2 yn cael unrhyw effaith sylweddol ar nifer y priodasau crefyddol yng Nghymru a Lloegr.

71. Os caiff cyfyngiadau eu hailgyflwyno, mae'n bosibl y byddai Opsiwn 2 yn cael effaith sylweddol ar nifer y priodasau crefyddol sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr o'i gymharu ag Opsiwn 0. Gallai hyn ddigwydd petai cyfyngiadau'r llywodraeth yn caniatáu mwy o bresenoldeb mewn seremonïau a gynhelir yn yr awyr agored, tra mae'n atal neu'n cyfyngu ar bresenoldeb mewn seremonïau dan do.

72. Felly, os *caiff* cyfyngiadau Covid eu hailgyflwyno ar seremonïau priodas a phartneriaeth sifil, disgwylir y gallai'r darpariaethau o dan Opsiwn 2 arwain at fudd net i'r diwydiant lleoliadau ehangach o'i gymharu ag Opsiwn 0, gan y byddai'n caniatáu i seremonïau a fyddai fel arall yn cael eu gohirio fynd rhagddynt.

## G. Effeithiau Ehangach

### Cydraddoldeb

73. I weld effaith y cynigion hyn ar gydraddoldeb, edrychwch ar y Datganiad Cydraddoldeb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith hwn.

### Gwell Rheoleiddio

74. Ar hyn o bryd, mae'r opsiynau a gynigir yn cael eu hystyried yn ddarpariaethau rheoleiddio anghymwys. Ar sail tystiolaeth gyfyngedig, tybir mai bach iawn fyddai graddfa'r effaith ar y diwydiant lleoliadau ehangach a chyrff crefyddol. Os daw tystiolaeth i'r amlwg sy'n awgrymu fod effeithiau naill ai Opsiwn 1 neu Opsiwn 2 yn fwy na throthwy'r Gost Net Uniongyrchol Gyfatebol Flynyddol i Fusnesau (ENDCB) o £5m de minimis, byddwn yn ceisio ymgynghori â'r RPC i gael barn.

### Goblygiadau posibl i fasnach

75. Nid oes unrhyw oblygiadau disgwyliedig i fasnach ryngwladol yn deillio o'r cynnig.

---

[11] Coronafeirws (COVID-19): Seremonïau, gwleddau a dathliadau priodas a phartneriaeth sifil – GOV.UK (www.gov.uk)

[12] Lefel rhybudd 0: canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau | LLYW.CYMRU

## H. Monitro a Gwerthuso

76. Byddai trefniadau monitro priodol yn cael eu pennu ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys y dystiolaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.

# Cydraddoldeb

**Seremonïau priodas a phartneriaeth sifil awyr agored:**

**Datganiad Cydraddoldeb sy'n cyd-fynd ag ymgynghoriad y Llywodraeth**

**Crynodeb o'r polisi**

Mae'r Llywodraeth yn cynnig parhau i ganiatáu seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored ar safleoedd cymeradwy. Mae'r polisi hwn eisoes wedi bod mewn grym ers 1 Gorffennaf 2021, pan osododd y Llywodraeth offeryn statudol ('OS') sy'n caniatáu i gyplau wedi gallu cynnal eu priodasau sifil a'u partneriaethau sifil yn yr awyr agored, ar dir adeiladau fel plastai a gwestai sydd wedi'u cymeradwyo neu'n cael eu cymeradwyo ar gyfer y seremonïau sifil hyn. Yn flaenorol, dim ond dan do neu mewn strwythurau parhaol ansymudol y gellid cynnal y seremonïau hyn.

Roedd y seremonïau awyr agored hyn yn bosibl oherwydd bod y Llywodraeth wedi gosod OS yng nghanol pandemig Covid-19 er mwyn rhoi mwy o ddewis i gyplau o ran lleoliadau a chefnogi'r sector priodasau a phartneriaethau sifil. Fodd bynnag, dim ond tan 5 Ebrill 2022 y mae'r OS mewn grym. Mae'r Llywodraeth yn cynnig cyflwyno OS pellach a fyddai'n dod i rym pan ddaw'r newidiadau hyn i ben ac a fyddai'n parhau i ganiatáu'r achosion priodas sifil a phartneriaeth sifil awyr agored hyn, fel yr eglurir yn fwy manwl yn y papur ymgynghori hwn. Er na all y Llywodraeth, fel y nodir yn y papur hwn, warantu y byddai'r Offeryn Statudol pellach yn dod i rym ar 6 Ebrill 2022, dyma gynnig a bwriad y Llywodraeth, a bydd y Llywodraeth yn gwneud pob ymdrech i bontio'n ddi-dor o'r rheolau presennol i'r rheolau newydd.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig ymestyn y polisi o ganiatáu seremonïau yn yr awyr agored i briodasau crefyddol ar dir mannau addoli drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol ar wahân a fyddai'n darparu dewis a hyblygrwydd tebyg i gyplau sy'n dymuno cael seremonïau crefyddol, i'r cyrff crefyddol sy'n gweinyddu priodasau a pherchenogion neu ymddiriedolwyr eraill mannau addoli sydd wedi'u cofrestru ar gyfer mathau penodol o briodasau crefyddol. Oherwydd yr amserlenni hirach sy'n gysylltiedig â gorchymyn diwygio deddfwriaethol, ni fyddai modd i'r ddarpariaeth ar gyfer seremonïau crefyddol yn yr awyr agored ddod i rym ym mis Ebrill 2022, yn yr un modd â'r nod ar gyfer yr OS seremonïau sifil a ddisgrifir uchod.

Byddai'r newidiadau hyn ar sail ganiataol, sy'n golygu na fyddai'n rhaid i unrhyw grŵp crefyddol ddarparu seremonïau yn yr awyr agored. Byddai'r mesurau amddiffyn presennol i ddiogelu rhyddid crefyddol yn aros yn eu lle.

Y bwriad yw rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i gyplau gael seremonïau yn yr awyr agored, pa un a ydynt yn dymuno cael seremonïau sifil neu briodasau crefyddol, a mwy o ddewis a hyblygrwydd i berchnogion/ymddiriedolwyr safleoedd cymeradwy yn ogystal â chyrff crefyddol sy'n gweinyddu priodasau.

Ni fyddai'r newidiadau hyn yn ymestyn i briodasau Iddewig a'r Crynwyr, na phriodasau Eglwys Loegr sy'n cael eu cynnal ar awdurdod trwydded arbennig, nac i briodasau crefyddol nac i ffurfio partneriaeth sifil ar gyfer y rheini sy'n sâl ac nad oes disgwyl iddynt wella ac na allant fynychu yn y lleoliadau gofynnol arferol, gan nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol o ran ble y mae'n rhaid i'r rhain ddigwydd.

Ni fyddai'r newidiadau hyn yn ymestyn ychwaith i briodasau a phartneriaethau sifil sy'n cael eu cynnal mewn swyddfeydd cofrestru, nac i'r rhai sy'n cael eu cynnal yn y mannau lle mae unigolion sy'n 'gaeth i'r tŷ' neu'n 'cael eu cadw'n gaeth' yn unol â Deddf Priodasau 1949 neu Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004. Caniateir y lleoliadau eithriadol hyn mewn amgylchiadau lle nad yw unigolion yn gallu mynychu seremonïau mewn lleoliadau sy'n ofynnol fel arall oherwydd salwch, anabledd neu eu bod yn cael eu cadw mewn carchar neu ysbyty diogel, er enghraifft. Mae'r Llywodraeth yn cynnig peidio â gwneud hynny gan nad yw'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod galw am seremonïau yn yr awyr agored o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn ac oherwydd hynny, bydd y Llywodraeth yn ystyried yr amgylchiadau penodol fyddai ddiwygiadau o'r fath yn eu cynnwys fel rhan o'i hystyriaeth o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio mwy cynhwysfawr a pharhaus.

## Effeithiau ar Gydraddoldeb

**Mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r dadansoddiad a wnaed gan yr Adran i alluogi Gweinidogion i gyflawni'r gofynion a osodwyd arnynt gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:**

- **dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;**
- **datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu; a**
- **meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.**

**Y naw "nodwedd warchodedig" o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.**

Rydym wedi cynnal asesiad cydraddoldeb cychwynnol yn erbyn meini prawf perthnasol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y nodir isod a byddwn yn diweddaru ein hystyriaethau cydraddoldeb yn yr Ymateb i'r Ymgynghoriad.

**<u>Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf</u>**

1. **Gwahaniaethu uniongyrchol**

Nid yw'r polisi'n gwahaniaethu'n uniongyrchol ar sail unrhyw nodwedd warchodedig gan nad yw'n golygu bod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchodedig. Mae'n caniatáu i amrywiaeth eang o seremonïau priodas a phartneriaeth sifil elwa o fwy o ddewis a hyblygrwydd o ran lleoliad y seremonïau, gan ddefnyddio'r hyblygrwydd a roddir gan y Senedd i ddarparu ar gyfer safleoedd y seremonïau sifil a fydd yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac i ddarparu mwy o ddewis ac effeithlonrwydd yn y sector drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol. Ni chaiff unrhyw gwpl ei atal rhag cynnal priodas neu seremoni partneriaeth sifil – yn yr awyr agored neu fel arall – ar sail nodwedd warchodedig.

Hefyd, ni chaiff unrhyw gwpl ei atal rhag cynnal priodas yn yr awyr agored ar sail eu cred. Gan nad oes darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer priodas yn unol â chred anghrefyddol, rhaid i gyplau sy'n dymuno priodi yn unol â chred anghrefyddol gyfuno'r seremoni hon â phriodas sifil neu briodas grefyddol. Os ydynt yn dewis priodas sifil, yna, fel pob cwpl arall, gallant wneud hynny yn yr awyr agored beth bynnag fo'u cred neu unrhyw nodwedd warchodedig arall.

Cyn bo hir, bydd y Llywodraeth yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith priodas yn sylfaenol, gan gynnwys ei gynigion ynghylch ble y dylai cyplau allu priodi a sut y gallai cyplau briodi yn unol â chredoau anghrefyddol. Mae'r cynnig hwn i

barhau â newid a roddwyd ar waith ar 1 Gorffennaf 2021, ac i ddarparu diwygio tebyg ar gyfer priodasau crefyddol, yn gam parhaus tuag at ddiwygio mwy sylfaenol.

2. **Gwahaniaethu anuniongyrchol**

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd polisi yr un mor berthnasol i bob unigolyn ond y byddai'n rhoi'r rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig dan anfantais benodol o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn ei rhannu. Fel yr eglurir isod, nid oes gennym ddigon o ddata ar hyn o bryd i asesu'r effeithiau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, ond ein barn gychwynnol yw nad yw'r polisi'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol ar sail unrhyw nodwedd warchodedig, a bod y cynigion yn ffordd gymesur o gyflawni ein nod cyfreithlon o gynnig dewis a hyblygrwydd ar gyfer priodasau yn yr awyr agored o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol cyn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio mwy cynhwysfawr a pharhaus.

Byddai cynnig y Llywodraeth yn rhoi opsiwn i unrhyw gwpl sy'n cynnal seremoni sifil mewn adeilad cymeradwy, neu briodas grefyddol mewn man addoli, gynnal y seremoni yn yr awyr agored ar yr amod bod y perchennog/ymddiriedolwr neu'r corff crefyddol perthnasol yn caniatáu cynnal seremonïau o'r fath yn yr awyr agored. Mae'r polisi'n un caniataol ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un wneud hynny, gan gynnwys cyrff crefyddol a lleoliadau. Bydd y miloedd lawer o adeiladau cymeradwy sy'n "safleoedd adeiledig" yn dal ar gael ar gyfer seremonïau sifil, yn yr un modd â swyddfeydd cofrestru, yr adeiladau sy'n fannau addoli, a'r lleoliadau eraill y darperir ar eu cyfer drwy statud.

Nid oes gennym ddigon o ddata ar hyn o bryd i ddeall faint o bobl sydd wedi cael priodasau neu bartneriaethau sifil yn yr awyr agored ers i'r OS cyntaf ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2021, a beth yw'r effeithiau hyd yma. Hefyd, nid oes gennym ddigon o ddata ar hyn o bryd i ddeall faint o gyplau sy'n priodi neu'n ymrwymo i bartneriaethau sifil drwy'r gweithdrefnau ar gyfer pobl sy'n gaeth i'w cartref neu sy'n cael eu cadw'n gaeth, faint o'r cyplau hyn sydd â nodweddion gwarchodedig, a faint fyddai'n dymuno priodi yn yr awyr agored neu fod mewn sefyllfa i briodi yn yr awyr agored pe bai'r diwygiad yn cael ei ymestyn iddynt. Ein barn gychwynnol yw na fyddai unrhyw un sydd â nodwedd warchodedig ac sy'n dymuno priodi neu ymrwymo i seremoni partneriaeth sifil yn yr awyr agored yn dioddef anfantais o ganlyniad i'r polisi hwn, ond mae'r Llywodraeth yn croesawu mewnbwn ar ei hymgynghoriad.

***Gwahaniaethu yn codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol***

*Anabledd*

Os yw person dan anfantais anuniongyrchol e.e. ar y sail bod y person hwnnw, oherwydd anabledd, yn 'gaeth i'r tŷ' neu 'wedi'i gadw'n gaeth' fel y nodir yn Neddf Priodasau 1949 a Deddf Partneriaeth Sifil 2004, ac yn dymuno priodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil yn y man hwnnw ond yn yr awyr agored, ystyrir bod unrhyw anfantais o'r fath yn gymesur â'r manteision o ran dewis a hyblygrwydd y mae'r polisi arfaethedig yn eu cynnig i gyplau a'r sector priodasau a phartneriaethau sifil o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, a lle mae'r mwyafrif helaeth o seremonïau'n cael eu cynnal ar safleoedd cymeradwy neu mewn mannau addoli. Bydd y Llywodraeth yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio mwy cynhwysfawr a pharhaus pan gaiff rhain eu cyhoeddi.

Hefyd, os yw ardal awyr agored yn anhygyrch neu'n llai hygyrch i berson ag anabledd, byddai'r anfantais hon yn deillio o nodweddion yr ardal awyr agored benodol, ac mae nifer sylweddol o safleoedd cymeradwy ac adeiladau eraill sy'n fannau addoli y gellir eu hystyried, boed hynny dan do neu yn yr awyr agored. Ystyrir bod unrhyw anfantais o'r fath hefyd yn gymesur â manteision dewis a hyblygrwydd y mae'r polisi'n eu cynnig i gyplau ac i'r sector priodasau a phartneriaethau sifil, ac fel y nodwyd, bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith priodas yn sylfaenol cyn bo hir, gan gynnwys ei chynigion ynghylch ble y dylai cyplau allu priodi. Mae'r cynnig hwn i barhau â newid a roddwyd ar waith ar 1 Gorffennaf 2021, ac i ddarparu diwygio tebyg ar gyfer priodasau crefyddol, yn gam pellach tuag at yr ystyriaeth gan y Llywodraeth i ddiwygio mwy cynhwysfawr a pharhaol.

*Crefydd neu gred*
Mae'r cynnig hwn yn debyg i briodasau sifil a phriodasau crefyddol, gan roi dewis a hyblygrwydd tebyg i gyplau, cyrff crefyddol a pherchnogion/ymddiriedolwyr eraill, boed yn seremoni sifil neu grefyddol.

Byddai cyplau sy'n dymuno cael seremonïau sy'n seiliedig ar gred heb fod yn un grefyddol yn parhau i wneud hynny drwy seremonïau sifil ac felly byddent yn elwa o ehangu adeiladau cymeradwy fel rhai eraill sy'n cymryd rhan mewn seremonïau sifil. Cyn bo hir, bydd y Llywodraeth yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith priodas yn sylfaenol, gan gynnwys ei gynigion ynghylch ble y dylai cyplau allu priodi a sut y gallai cyplau briodi yn unol â chredoau anghrefyddol. Mae'r cynnig hwn i barhau â newid a roddwyd ar waith ar 1 Gorffennaf 2021, ac i ddarparu diwygio tebyg ar gyfer priodasau crefyddol, yn gam parhaus tuag at ddiwygio mwy sylfaenol.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da**

Ystyriwyd ym mha ffordd y mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion pobl sy'n dymuno cael priodasau yn yr awyr agored sy'n rhannu nodwedd warchodedig, pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i angen y rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno.

Bydd y polisi arfaethedig yn cynnig opsiwn i gynnal y rhan fwyaf o briodasau sifil, partneriaethau sifil a phriodasau crefyddol yn yr awyr agored. Mae'r posibilrwydd o ddarparu hyblygrwydd o'r fath mewn lleoliadau ar gyfer seremonïau sifil yn cael ei roi gan bŵer offeryn statudol penodol sy'n gymwys i safleoedd cymeradwy, a chan bŵer ar wahân i ddarparu mwy o ddewis a hyblygrwydd mewn sector rheoledig drwy orchymyn diwygio deddfwriaethol.

Hefyd, cyn bo hir, bydd y Llywodraeth yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith priodas yn sylfaenol, gan gynnwys ei gynigion ynghylch ble y dylai cyplau allu priodi a sut y gallai cyplau briodi yn unol â chredoau anghrefyddol. Mae'r cynnig hwn i barhau â newid a roddwyd ar waith ar 1 Gorffennaf 2021, ac i ddarparu diwygio tebyg ar gyfer priodasau crefyddol, yn gam pellach tuag at ystyriaeth y Llywodraeth o ddiwygio mwy cynhwysfawr a pharhaol yn dilyn argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

***Meithrin perthynas dda***

Rhoddwyd ystyriaeth i'r amcan hwn sy’n dangos nad yw’n debygol iawn o fod yn berthnasol i'r cynigion.

### Casgliad

Rydym yn croesawu safbwyntiau’r rhai a ymatebodd i’r ymgynghoriad a byddwn yn diweddaru’r asesiad hwn o’r effaith ar gydraddoldeb yn yr Ymateb i’r Ymgynghoriad. Gweler y cwestiynau cydraddoldeb ar dudalen 25 yr ymgynghoriad.

## Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cyhoeddir cyfieithiad Cymraeg o’r ymgynghoriad cyn gynted ag y bo modd.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i outdoorweddings@justice.gov.uk